
nationalgrid

DOGFEN 8.2

# Memorandwm Esboniadol

## National Grid (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)

*Regulation 5(2)(c) of the Infrastructure Planning*
*(Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009*



Application Reference EN020015

Medi 2018

**Deddf Cynllunio 2008**

**Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009**

**Rheoliad 5(2)(c)**

# Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Cysylltiad Gogledd Cymru) arfaethedig y National Grid

## Memorandwm Esboniadol

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y ddogfen** | |
| **Rhif y rheoliad** | **Rheoliad 5(2)(c)** |
| **Awdur** | **Bryan Cave Leighton Paisner LLP** |
| **Dyddiad** | **Medi 2018** |
| **Fersiwn** | **Fersiwn cyflwyno** |
| **Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio:** | |

**Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol**

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **4** |
| **2** | **Pwrpas y Gorchymyn** | **5** |
| **3** | **Materion atodol** | **6** |
| **4** | **Gorchymyn Drafft** | **7** |
| **5** | **Rhan 1 – Rhagarweiniol** | **8** |
| **6** | **Rhan 2 – Prif bwerau** | **12** |
| **7** | **Rhan 3 – Strydoedd** | **19** |
| **8** | **Rhan 4 – Pwerau ategol** | **25** |
| **9** | **Rhan 5 – Pwerau Caffael** | **29** |
| **10** | **Rhan 6 - Amrywiol a chyffredinol** | **45** |
| **11** | **Atodlenni** | **53** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae’r memorandwm hwn yn esbonio pwrpas ac effaith pob erthygl ac Atodlen Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru) drafft y National Grid (“y Gorchymyn”), sy’n ofynnol gan reoliad 5(2)(c) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009[a].

1.2 Mae’r Gorchymyn yn seiliedig ar y Darpariaethau Enghreifftiol Cyffredinol (y “darpariaethau enghreifftiol cyffredinol”) yng Ngorchymyn Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Enghreifftiol) (Cymru a Lloegr) 2009 (“Gorchymyn Darpariaethau Enghreifftiol 2009”[b]) oni nodir fel arall[c]. Dilynwyd y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol oherwydd nid oes darpariaethau enghreifftiol ar gyfer llinellau trydan.

1.3 Tynnodd Deddf Lleoliaeth 2011 y gofyniad i’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau ystyried y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol wrth benderfynu ar geisiadau, felly nid oes ganddynt unrhyw statws cyfreithiol ffurfiol mwyach. Hefyd, tynnodd yr is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf Lleoliaeth y gofyniad i ymgeisydd esbonio yn y memorandwm esboniadol unrhyw beth sy’n wahanol i’r Darpariaethau Enghreifftiol, er dylid nodi bod tudalen “Legislation” gwefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn nodi:

> *“….that it may though still be useful and helpful for applicants to show how and why they have departed from the Model Provisions Order in their applications”.*

1.4 Mae paragraff 1.5 Nodyn Cyngor 15 yr Arolygiaeth Gynllunio[d] yn nodi “*If a draft DCO includes wording derived from other made DCOs, this should be explained in the Explanatory Memorandum. The Explanatory Memorandum should explain why that particular wording is relevant to the proposed draft DCO, for example detailing what is factually similar for both the relevant consented NSIP and the Proposed Development… the ExA and Secretary of State will need to understand why it is appropriate for the scheme applied for. Any divergence in wording from the consented DCO drafting should also be explained.*”

---

[a] O.S. 2009/2264.

[b] O.S. 2009/2265.

[c] Er bod Gorchymyn Darpariaethau Enghreifftiol 2009 wedi methu diddymu'r pŵer galluogi yn adran 38 y Ddeddf Cynllunio, a bod Nodyn Cyngor 15 yr Arolygiaeth Gynllunio (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018) wedi tynnu’r gofyniad i atodi cymhariaeth o’r gorchymyn cydsyniad datblygu drafft, gan ddangos yr hyn sy’n wahanol i'r darpariaethau enghreifftiol, at y Memorandwm Esboniadol, mae’r darpariaethau enghreifftiol yn parhau i ddarparu arweiniad defnyddiol ar lunio drafftiau.

[d] Cyhoeddwyd Gorffennaf 2018.

1.5 Os oes rhywbeth yn wahanol i'r darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, neu fod erthygl yn seiliedig ar orchmynion cynsail eraill, darperir esboniad o'r ddarpariaeth newydd. Yn gyffredinol, y cynseiliau a ddilynwyd ar gyfer y Gorchymyn oedd gorchmynion cydsyniad datblygu eraill ar gyfer llinellau trydan (yn bennaf, Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017[a], Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016[b] a Gorchymyn (Prosiect Atgyfnerthu Gogledd Llundain) y National Grid) 2014),[c] yn ogystal â gorchmynion cydsyniad datblygu a Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd ar gyfer cynlluniau llinellol eraill, fel Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014[d] a datblygiadau rheilffyrdd a thramffyrdd.

1.6 Nid ydy'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau enghreifftiol nad ydynt yn berthnasol i'r datblygiad arfaethedig ac nid ydy'r memorandwm esboniadol hwn yn mynd ati i esbonio eu habsenoldeb ymhellach.

## 2 Pwrpas y Gorchymyn

*Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol – gosod llinell drydan uwchben y ddaear*

2.1 Mae National Grid Electricity Transmission plc ("y National Grid") yn gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am orchymyn cydsyniad datblygu (DCO) ar gyfer Cysylltiad Gogledd Cymru, a fyddai'n awdurdodi gwaith ar y system trawsyrru trydan genedlaethol rhwng Wylfa ar Ynys Môn a Phentir yng Ngwynedd. Mae'r datblygiad arfaethedig yn ofynnol er mwyn darparu digon o gapasiti trawsyrru i alluogi cysylltiad rhwng yr Orsaf Bŵer Niwclear newydd arfaethedig Horizon ar Ynys Môn a'r rhwydwaith trawsyrru trydan presennol yng ngogledd Cymru.

2.2 Mae'r datblygiad arfaethedig yn darparu cysylltiad 400 cilofolt (kV) newydd rhwng yr is-orsafoedd presennol yn Wylfa a Phentir ac mae'n cynnwys y prif gydrannau canlynol:

- Addasiadau i'r is-orsaf bresennol yn Wylfa;
- Adrannau o linell uwchben 400 kV newydd rhwng is-orsaf Wylfa, Prif Dŷ Twnnel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn, gan gynnwys addasu rhannau o'r llinell uwchben 400 kV bresennol rhwng Wylfa a Phentir;
- Prif Dŷ Twnnel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn;

---

[a] O.S. 2017/817 (fel y'i cywirwyd gan O.S. 2018/572).

[b] O.S. 2016/49 (fel y'i cywirwyd gan O.S. 2017/786)

[c] O.S. 2014/1052

[d] O.S. 2014/2384

- Twnnel a cheblau 400kV rhwng Prif Dai Twnnel Afon Braint a Thŷ Fodol;
- Prif Dŷ Twnnel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio yng Ngwynedd;
- Adran newydd o linell uwchben 400 kV rhwng Prif Dŷ Twnnel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ac is-orsaf Pentir;
- Estyniad i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir; a
- Chompowndiau adeiladu dros dro, traciau mynediad, ardaloedd gwaith adeiladu a gwaith trydydd parti sy'n ofynnol er mwyn adeiladu'r seilwaith a restrir uchod.

2.3 Mae disgrifiad manylach o'r datblygiad arfaethedig ar gael ym Mhennod 3 y Datganiad Amgylcheddol.

2.4 Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n gyfan gwbl yng Nghymru ac mae'n cynnwys gosod llinell drydan 400kV uwchben y ddaear. Gan hynny, mae'n brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol at ddibenion adrannau 14(1)(b) ac 16 Deddf Cynllunio 2008[a] ("y Ddeddf").

2.5 Gan fod y datblygiad arfaethedig yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, rhaid cael cydsyniad datblygu er mwyn ei awdurdodi[b], a rhaid gwneud unrhyw gais am orchymyn cydsyniad datblygu i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 37 y Ddeddf.

2.6 Mae Atodlen 1 y Gorchymyn yn cynnwys rhestr o waith wedi'u rhifo sy'n rhan o'r datblygiad arfaethedig. Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gwaith a ddisgrifir yn adran 14(1)(b) y Ddeddf (gosod llinell drydan uwchben y ddaear), Datblygiadau Cysylltiedig, a materion eraill wedi'u cynnwys fel rhai atodol i'r datblygiad fel y'i disgrifir yn adrannau 120(3) a (4) a Rhan 1 o Atodlen 5 y Ddeddf.

2.7 Mae'r National Grid yn credu bod pob elfen o'r datblygiad arfaethedig yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, neu'n rhan o brosiect o'r fath, neu'n Ddatblygiad Cysylltiedig.

## 3 Materion atodol

3.1 Mae'r Gorchymyn hefyd yn cynnwys pwerau sy'n atodol i'r datblygiad awdurdodedig (h.y. darpariaethau nad ydynt yn cynnwys datblygiad) yn unol ag adran 120(3) y Ddeddf.

3.2 Y prif fater atodol ydy pŵer i gaffael tir, neu greu neu ymyrryd â hawliau, boed hynny'n orfodol neu drwy gytundeb, yn unol ag adran 120(4) a Rhan 1 o Atodlen 5 y Ddeddf. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cynnwys pwerau caffael gorfodol ar dir sy'n ofynnol ar gyfer y

---

[a] c.29.

[b] A.31 y Ddeddf

datblygiad awdurdodedig, sy'n atodol iddo, neu sydd ei angen i'w hwyluso o dan adran 122 y Ddeddf. Mae hefyd yn ceisio pwerau cysylltiedig, gan gynnwys caffael yr hawliau sy'n ofynnol i weithredu a chynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig. Mae cyfiawnhad dros y pwerau caffael gorfodol wedi'i nodi yn y Datganiad o Resymau a ddaw gyda'r cais.

3.3 Nod y Gorchymyn ydy gweithredu ac addasu darpariaethau statudol, gan gynnwys mewn cysylltiad â chaffael gorfodol ar dir. Mewn achosion o'r fath, mae adrannau 117 a 120(5) y Ddeddf yn mynnu bod y Gorchymyn yn cael ei wneud drwy Offeryn Statudol. Felly, mae'r Gorchymyn wedi cael ei ddrafftio ar y ffurf honno.

## 4 Gorchymyn Drafft

4.1 Mae'r Gorchymyn drafft yn seiliedig ar Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016[a] a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017[b], ac mae rhai darpariaethau (o ganlyniad i'r elfen twnnel) hefyd yn seiliedig i ryw raddau ar Orchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014[c]. Mae'r Gorchymyn drafft hefyd yn seiliedig ar y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, a chyfeirir at y darpariaethau enghreifftiol rheilffyrdd yng Ngorchymyn Darpariaethau Enghreifftiol 2009 hefyd, ac ystyried natur linellol y prosiect hwn.

*Datblygiad awdurdodedig*

4.2 Mae'r darpariaethau enghreifftiol cyffredinol yn cyfeirio at "y prosiect awdurdodedig" sy'n cynnwys "y datblygiad awdurdodedig" a'r "gwaith atodol". Nid ydy'r Gorchymyn yn defnyddio'r term "gwaith atodol" oherwydd mae'r holl waith a gynigir hefyd yn ddatblygiadau, ac felly nid oes angen diffiniad o'r "prosiect awdurdodedig", sy'n wahanol i'r "datblygiad awdurdodedig", ar y Gorchymyn. Yn unol â hynny, mae cyfeiriadau at "y prosiect awdurdodedig" yn y darpariaethau enghreifftiol wedi cael eu newid i gyfeiriadau at "y datblygiad awdurdodedig" yn y Gorchymyn.

*Cymeradwyaeth dybiedig*

4.3 Mae Gorchmynion blaenorol (er enghraifft, Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017) wedi cynnwys erthyglau sy'n cynnwys darpariaeth sy'n golygu bod yn rhaid i'r hyrwyddwr gael cymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb gan drydydd parti cyn gallu gwneud rhywbeth ac ni cheir

[a] O.S. 2016/0049 (fel y'i diwygiwyd)

[b] O.S. 2017/817

[c] O.S. 2014/2384 (fel y'i diwygiwyd)

gwrthod cymeradwyaeth, cydsyniad, neu gytundeb o’r fath yn afresymol. Maen nhw a gorchmynion eraill a wnaed hefyd wedi cynnwys darpariaeth stop hir ddiofyn sy’n golygu os nad ydy'r trydydd parti perthnasol yn ymateb cyn pen cyfnod penodol, tybir bod cymeradwyaeth, cydsyniadau neu gytundebau penodol yn cael eu rhoi.

4.4 Mae’r National Grid yn credu bod y dull hwn yn angenrheidiol er mwyn osgoi’r posibilrwydd o oedi gormodol a darparu sicrwydd fod modd cyflenwi’r datblygiad awdurdodedig yn brydlon. Mae’r dull hwn yn cael ei ystyried yn un cymesur hefyd, oherwydd ar ôl cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio helaeth, a’r Gorchymyn wedi cael ei archwilio’n drylwyr, ni ddylai’r gwaith o gyflenwi’r datblygiad awdurdodedig gael ei oedi’n afresymol os ydy’r Ysgrifennydd Gwladol wedi ei gymeradwyo.

4.5 Felly, mae'r Gorchymyn drafft yn cynnwys trefn cydsynio tybiedig, a hynny yn erthyglau 13(5) (pŵer i addasu cynllun ayb strydoedd); 14(7) (cau strydoedd a hawliau tramwy cyhoeddus dros dro); 15(2) (mynediad at waith); 18(9) (gollwng dŵr); 20(7) (hawl i arolygu ac ymchwilio i dir) a 47(8) (rheoliadau traffig). Mae hyn yn berthnasol os oes angen am gydsyniad ayb, ac ni ddarperir y cyfryw gydsyniad ayb cyn pen 28 diwrnod ar ôl cael cais am gydsyniad neu gymeradwyaeth. Yn y sefyllfa honno tybir bod yr awdurdod cydsynio wedi rhoi cydsyniad. Defnyddir yr un cyfnod o 28 diwrnod yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, ac mae’n cael ei ystyried yn gymesur ar gyfer pob cais a wnaed, gan sicrhau hefyd nad ydy’r gwaith o gyflenwi’r cynllun yn cael ei oedi’n ddiangen o ganlyniad i resymau y tu hwnt i reolaeth y National Grid.

4.6 Mae darpariaethau’r Gorchymyn drafft yn awr yn cael eu hesbonio mewn trefn, gan roi rhesymau dros unrhyw beth sy’n wahanol i’r cynseiliau a nodir uchod.

## 5 Rhan 1 – Rhagarweiniol

*Rhagymadrodd*

5.1 Cyflwynir y Gorchymyn gan ragymadrodd, yn yr un modd â phob offeryn statudol.

*Erthygl 1 (Enwi a chychwyn)*

*5.2* Mae erthygl 1 yn nodi enw a dyddiad cychwyn y Gorchymyn.

*Erthygl 2 (Dehongli)*

5.3 Mae erthygl 2(1) yn diffinio'r termau a ddefnyddir yng ngweddill y Gorchymyn. Caiff y diffiniadau a ddefnyddir yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol eu diwygio a’u hychwanegu i adlewyrchu

amgylchiadau penodol y prosiect a'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Ddeddf ers iddi gael ei deddfu'n wreiddiol.

5.4 Mae nifer o ddiffiniadau wedi'u hychwanegu, gan gynnwys: "Deddf 1981"; "Deddf 2009"; "Deddf 2016"; "Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy"; "cychwyn"; "llinell drydan"; "trawsyrru trydanol"; "terfynau gwyro"; "cynnal a chadw"; a "traffig".

5.5 Mae llawer o'r diffiniadau ychwanegol hyn yr un peth â'r rheini yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017 a, lle bo hynny'n wir, mae geiriad y diffiniadau ychwanegol hynny yn union yr un fath.

5.6 Yn yr un modd â Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, mae diffiniad manwl o'r "Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu" a'i gynlluniau a'i strategaethau cysylltiedig (ynghyd â rhifau'r Dogfennau) wedi cael ei ychwanegu er mwyn cadarnhau pa fersiynau o'r dogfennau fydd yn cael eu hardystio, a pha rai fydd yn dylanwadu ar yr amrywiol strategaethau a mesurau lliniaru i leihau unrhyw effaith a achosir gan y gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig.

5.7 Diffinnir "yr ymgymerwr" fel National Grid Electricity Transmission plc mewn cysylltiad â'r datblygiad awdurdodedig, ac SP Manweb Plc mewn cysylltiad â Gwaith SP Manweb. Cafodd y dull hwn ei fabwysiadu yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017. Mae Gwaith SP Manweb hefyd yn cael ei ddiffinio yn erthygl 2 fel y gwaith hwnnw ar asedau neu gyfarpar SP Manweb sy'n rhan o'r datblygiad awdurdodedig. Mae'r dull hwn yn wahanol i'r dull a fabwysiadwyd yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 oherwydd mae natur Gwaith SP Manweb yn llai helaeth o lawer (ac yn fwy achlysurol ei natur) na gwaith gweithredwr y rhwydwaith dosbarthu o dan Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

5.8 Fel yr esbonnir uchod, mae'r diffiniad o 'ymgymerwr' yn cynnwys y National Grid ac SP Manweb. Defnyddir y termau 'National Grid' ac 'SP Manweb' yn y ddogfen hon hefyd. Ac eithrio lle mae sôn am y National Grid ac SP Manweb yn yr un paragraff, mae unrhyw gyfeiriad at 'yr ymgymerwr' yn y ddogfen hon hefyd yn berthnasol i SP Manweb i'r graddau y mae gan ddarpariaethau'r Gorchymyn effaith er budd SP Manweb mewn cysylltiad â Gwaith SP Manweb (gweler erthygl 6 Budd y Gorchymyn), yn ogystal â'r National Grid mewn cysylltiad â'r datblygiad awdurdodedig.

5.9 Mae diffiniad manwl o'r "datganiad amgylcheddol" wedi cael ei ddarparu hefyd er mwyn adlewyrchu unrhyw gyflwyniadau dilynol o

amrywiol ddogfennau'r datganiad amgylcheddol i'r Archwiliad. Er bod y dull hwn ar gyfer diffinio wedi'i fabwysiadu o Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, mae'r Gorchymyn yn ymestyn y diffiniad hwn i gynnwys unrhyw ddatganiad amgylcheddol a allai gael ei gyflwyno at ddiben cydymffurfio â'r Gofynion a/neu eu cyflawni. Bydd hyn yn sicrhau bod y datblygiad awdurdodedig yn cael ei adeiladu'n unol ag unrhyw gyflwyniadau o'r fath a gymeradwyir.

5.10 Mae diffiniad "cynnal a chadw" wedi cael ei ddiwygio o'r diffiniad sydd yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 er mwyn ychwanegu'r gallu i ddatgymalu, adnewyddu, datgomisiynu neu wella'r datblygiad awdurdodedig. Pwrpas hyn ydy ystyried yr ystod o waith y mae'r National Grid yn credu y byddai angen iddo, yn rhesymol, ei gyflawni dros oes y datblygiad awdurdodedig er mwyn sicrhau cysylltiad diogel ac effeithlon. Mae'r Gorchymyn yn cyfyngu ar y diffiniad hwn fel nad ydy'r gallu i gynnal a chadw yn amrywio'r cynllun y tu hwnt i ddiffiniad y datblygiad awdurdodedig. Mae cyfeiriad wedi'i gynnwys i alluogi'r National Grid i ddefnyddio technoleg, fel dronau, yn ei weithgareddau cynnal a chadw. Mae hyn yn briodol er mwyn sicrhau y gall y National Grid gynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig gan ddefnyddio'r dulliau mwyaf effeithlon a lleiaf aflonyddol sydd ar gael iddo. Nodir y cyd-destun lle caiff y National Grid (neu mae'n rhaid iddo) gynnal a chadw yn yr erthygl berthnasol.

5.11 Mae diffiniad "defnydd gweithredol" wedi cael ei addasu o Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 i gyd-fynd ag amgylchiadau penodol y datblygiad arfaethedig. Mae'r cyfeiriad at 400kV yn ymwneud â chyfarpar y National Grid ac mae'r cyfeiriad at folteddau is, yn cynnwys 11kV, 33kV a 133kV, yn ymwneud â chyfarpar SP Manweb,

5.12 Diffiniad "tir y Gorchymyn" ydy tir a ddangosir yn y Cynlluniau Tir ac a ddisgrifir yn y Llyfr Gorchwyl.

5.13 Mae diwygiadau eraill wedi cael eu gwneud i'r diffiniadau a ddefnyddir yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, gan gynnwys diwygio "awdurdod cynllunio perthnasol" i gyfeirio at yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardaloedd y mae'r ddarpariaeth benodol yn berthnasol iddynt. Roedd rhaid gwneud hyn gan fod y datblygiad awdurdodedig yn pasio drwy fwy nag un ardal awdurdod cynllunio lleol. Mae geiriad sy'n union yr un fath wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

5.14 Yn wahanol i Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, nid ydy'r Gorchymyn hwn yn cynnwys diffiniadau ar gyfer "Trwydded Forol Dybiedig", "MMO", nac "Awdurdod Porthladd" gan nad ydynt yn berthnasol yng nghyswllt amgylchiadau'r Gorchymyn hwn.

5.15 Mae diffiniad ar gyfer "Deddf 2016" yn ofynnol yn sgil rhai darpariaethau yn Neddf Tai a Chynllunio 2016 yn dod i rym.

5.16 Mae diffiniad newydd ar gyfer "cychwyn" wedi cael ei ychwanegu. Bwriad hyn ydy egluro pa bryd mae gwaith sy'n rhan o'r datblygiad awdurdodedig yn cychwyn, gyda chyfeiriad at adran 155(2) y Ddeddf. Mae rhai gweithgareddau (gan gynnwys clirio'r safle, dymchwel, arolygon ac ymchwiliadau, a sefydlu swyddfeydd safleoedd a chompowndiau adeiladu) wedi'u heithrio o'r diffiniad hwn er mwyn sicrhau nad oes cyfyngiad ar yr ymgeisydd i gyflawni gwaith 'gosod safle' safonol cyn cydymffurfio ag unrhyw Ofynion cyn cychwyn. Mae hwn yn fersiwn estynedig o'r diffiniad sydd yn Atodlen 3 (gofynion) Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017. Mae cynnwys y gweithgareddau ychwanegol yn briodol ac yn gymesur, ac ystyried unig ddefnydd y diffiniad yn erthygl 37 (dileu ac atal hawliau preifat). At ddibenion y Gofynion a restrir yn Atodlen 3 y Gorchymyn, mae diffiniad penodol wedi'i gynnwys yn Atodlen 3 sy'n berthnasol yn lle'r diffiniad cyffredinol.

5.17 Mae diffiniad newydd ar gyfer "llinell drydan" wedi cael ei ychwanegu, sy'n croesgyfeirio at yr ystyr a nodir yn Neddf 2008 ac yn darparu enghreifftiau o'r mathau o gyfarpar sy'n rhan o linell drydan.

5.18 Mae diffiniad o "ymgymerwr statudol" wedi cael ei gynnwys drwy groesgyfeirio at Ddeddf 2008, gan mai honno ydy'r brif ddeddfwriaeth amlycaf). Mae'n adlewyrchu'r diffiniad yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

5.19 Diwygiwyd erthygl 2(2) i egluro'r cyfeiriadau at osod cyfyngiadau ar dir y Gorchymyn. Mae'r geiriad hwn bron yn union yr un fath â'r geiriad yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, ac eithrio fod "mewn cysylltiad â thir" wedi cael ei ychwanegu i egluro mai dim ond y cyfyngiadau mewn cysylltiad â thir sy'n cyfeirio at gyfyngiadau ar dir sy'n ymyrryd â buddiant neu hawl parti arall ac sydd er budd y tir sy'n cael ei gaffael.

5.20 Mae erthygl 2(3) yn diffinio mesuriadau bras, yn unol â'r darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Pwrpas hyn ydy sicrhau, os bydd yn dod i'r amlwg wrth adeiladu'r gwaith fod y pellteroedd fymryn yn wahanol i'r rheini a restrir yn y Gorchymyn, ni fydd problem o ran a ydy'r Gorchymyn yn caniatáu'r gwaith. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu ar gyfer goddefiant bach mewn cysylltiad ag unrhyw bellteroedd a phwyntiau, ond bydd yr holl waith yn cael ei gyflawni o fewn terfynau'r Gorchymyn. Mae'n beth cyffredin i gynnwys darpariaeth o'r fath mewn Deddf neu offeryn sy'n awdurdodi seilwaith llinellol[a], ac mae geiriad tebyg wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016. Mae'r Gorchymyn yn nodi ymhellach y

[a] Gweler, er enghraifft, adran 56(5)(c) Deddf Crossrail 2008. Hefyd, gweler erthygl 2(4) Gorchymyn (Cyfleuster Adfer Adnoddau) Rookery South 2011.

dylid mesur pellteroedd gwaith llinellol ar hyd llinell ganol y gwaith hwnnw, a bod rhifau adnabod peilonau yn cael eu nodi drwy gyfeirio at linell ganol y gwaith hwn a'u bod yn ddarostyngedig i derfynau gwyro'r gwaith hwnnw. Ar ben hynny, nodir y gellir addasu rhifau a lleoliad y tyrrau yn unol â'r terfynau gwyro.

5.21 Yn ogystal ag erthygl 2(3), mae geiriad wedi cael ei ychwanegu mewn cysylltiad ag adran twnnel y datblygiad arfaethedig am yr un rheswm â rhan gyntaf y paragraff hwnnw, ond yn delio'n benodol ag agweddau ar dwnnel. Cafodd geiriad tebyg iawn ei gynnwys yn erthygl 2(4) Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014.

5.22 Nid ydy erthyglau 2(4) i (7) yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Mae erthygl 2(4) yn darparu mai ardaloedd bras ydy'r ardaloedd a roddir yn y Llyfr Gorchwyl gan fod y Llyfr Gorchwyl y tu allan i gwmpas erthygl 2(3).

5.23 Mae erthyglau 2(5) i (6) yn esbonio sut dylid dehongli'r cyfeiriadau yn y Gorchymyn at lythrennau neu bwyntiau wedi'u rhifo ac at waith wedi'u rhifo. Mae erthygl 2(7) yn cadarnhau bod unrhyw gyfeiriad at Ddogfennau yn y Gorchymyn yn gyfeiriadau at ddogfennau a gyflwynwyd gan y National Grid i gefnogi'r cais am y Gorchymyn. Mae geiriad tebyg iawn wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

5.24 Mae erthygl 2(8) yn darparu bod unrhyw gyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn cynnwys diwygiadau i'r ddeddfwriaeth honno.

## 6 Rhan 2 – Prif bwerau

*Erthygl 3 (Cydsyniad datblygu ayb a roddir gan y Gorchymyn)*

6.1 Mae erthygl 3 yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig o fewn terfynau'r Gorchymyn. Disgrifir y datblygiad awdurdodedig yn Atodlen 1. Mae'r cydsyniad datblygu yn ddarostyngedig i'r Gofynion a nodir yn Atodlen 3. Mae geiriad erthygl 3 yn debyg i'r geiriad yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017 ac yn cael yr un effaith â'r geiriad hwnnw, ac mae'n cynnwys geiriad o Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

6.2 Nid oes unrhyw "waith atodol" ar gyfer y prosiect yn unol â'r ystyr a roddir yn erthygl 1 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, felly mae'r term hwn wedi cael ei dynnu o erthygl 3 ac o erthygl 2 y Gorchymyn hefyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017.

6.3 Mae erthygl 3 yn rhoi cydsyniad datblygu i'r National Grid gyflawni unrhyw ran o’r datblygiad awdurdodedig. Mae hefyd yn rhoi cydsyniad datblygu i SP Manweb gyflawni’r gwaith ar y rhwydwaith trawsyrru trydan lleol (Gwaith SP Manweb), yn amodol ar SP Manweb yn cyflawni Gwaith SP Manweb heb i’r National Grid orfod dod i'r adwy.

6.4 Mae paragraffau (2) a (3) erthygl 3 yn adlewyrchu adran 141 y Ddeddf ac yn darparu bod gan y National Grid ac SP Manweb yr hawl i osod llinellau trydan uwchben y ddaear, ceblau dan y ddaear ac unrhyw delemetreg sy’n rhan o’r gwaith hwnnw, a’u cadw wedi’u gosod. Mae’r paragraffau hyn hefyd yn caniatáu i’r National Grid ac SP Manweb dynnu neu newid unrhyw beilon sydd angen ei dynnu fel rhan o’r datblygiad awdurdodedig. Yn benodol, mae’r pŵer hwn yn ymwneud â chroesiadau sydd wedi’u dylunio i leihau effeithiau lleol ar yr amgylchedd ac ar eiddo er mwyn galluogi'r National Grid i newid y llinell o un ochr o’r llwybr i’r llall. Mae hefyd yn ymwneud ag arfer y pŵer cynnal a chadw yn erthygl 4. Fel rhan o’r gwaith croesi ac o arfer y pŵer cynnal a chadw, bydd angen tynnu a newid peilonau.

6.5 Mae paragraffau (4) a (5) yn caniatáu i’r National Grid ac SP Manweb weithredu a defnyddio'r llinell drydan ac unrhyw elfennau eraill o’r datblygiad awdurdodedig ac o Waith SP Manweb fel rhan o’r rhwydwaith dosbarthu a thrawsyrru trydan yng Nghymru a Lloegr. Mae’r ddarpariaeth yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i’r ymgymerwr weithredu a defnyddio'r datblygiad awdurdodedig at y dibenion y cafodd ei ddylunio ar eu cyfer, yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn a’r Gofynion cysylltiedig.

6.6 Mae paragraff (6) yn nodi bod y cydsyniad datblygu a roddwyd gan y Gorchymyn yn caniatáu gwaith (gan gynnwys dymchwel adeiladau neu strwythurau eraill) o fewn terfynau'r Gorchymyn i’r graddau y maent yn ofynnol wrth gyflawni'r datblygiad awdurdodedig neu’n atodol i hynny, fel y caniateir gan adran 120(3) y Ddeddf.

6.7 Mae paragraff (7) erthygl 3 yn cadarnhau’r terfynau gwyro y mae’n rhaid cyflawni’r gwaith a ddisgrifir yn Atodlen 1 o’u mewn. Mae rhagor o sylwebaeth ar y terfynau gwyro wedi’i ddarparu isod mewn cysylltiad ag erthygl 5.

6.8 Mae paragraff (8) yn gweithredu Atodlen 3 (gofynion).

*Erthygl 4 (Cynnal a chadw’r datblygiad awdurdodedig)*

6.9 Mae’r erthygl hon yn nodi’r cwmpas y gall y National Grid gynnal a chadw’r datblygiad awdurdodedig o’i fewn, ac y gall SP Manweb gynnal a chadw Gwaith SP Manweb o’i fewn. Mae’r geiriad yn erthygl 3 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol wedi’i ddyblygu ar gyfer y National Grid ac SP Manweb. Ceir diffiniad o “cynnal a chadw” yn erthygl 2.

*Erthygl 5 (Terfynau gwyro)*

6.10 Mae erthygl 5 yn ymgorffori darpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y darpariaethau enghreifftiol rheilffyrdd ac sy'n briodol yng nghyd-destun prosiectau llinellol. Mae'r terfynau hyn yn ymwneud â'r gwaith llinellol ac yn caniatáu ar gyfer gwyro gwaith llinellol yn ochrol o fewn y llinellau a ddangosir yn y cynlluniau gwaith. Maent yn caniatáu ar gyfer y canlynol:

(a) gwyro'r peilonau yn fertigol, heb fod dros 6 metr at i fyny. Mae'r terfynau gwyro fertigol wedi cael eu gosod ar 6 metr gan fod hynny'n cyfateb i ddau banel estyniad tri metr safonol. Mae hyn yn fwy o wyriad at i fyny nag oedd angen amdano yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, ond mae'n angenrheidiol ac yn briodol yn y Gorchymyn i sicrhau bod modd cynnal y cysondeb â'r llinell drydan uwchben bresennol;

(b) gwyro'r peilonau at i lawr i'r graddau y mae'r ymgymerwr yn ystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus. Mae hyn wedi'i addasu o'r geiriad yn narpariaethau enghreifftiol cyffredinol y DCO ac yn narpariaethau enghreifftiol y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, ac mae'n gyffredin mewn prosiectau llinellol, yn cynnwys Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017. Rhaid cael hyblygrwydd o ran gwyro at i lawr er mwyn i unrhyw waith adeiladu allu adlewyrchu cyflwr y ddaear ar yr adeg y mae'r gwaith yn cael ei wneud.

(c) gwyro'r dargludyddion uwchben a'r gwifrau daear ffeibr-optig yn fertigol (at i fyny ac at i lawr) i'r graddau y mae'r ymgymerwr yn ystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd mae uchder y dargludyddion a'r gwifrau daear ffeibr-optig yn swyddogaeth safle ac uchder y peilonau. Mae hyn yn golygu os bydd uchder peilon yn newid, er enghraifft, neu fod y peilonau'n cael eu lleoli'n agosach i'w gilydd neu'n bellach oddi wrth ei gilydd, bydd uchder y dargludyddion a'r gwifrau daear ffeibr-optig yn newid hefyd. Bydd y terfynau gwyro at i fyny wedi'u cyfyngu gan derfynau gwyro at i fyny'r peilonau. Bydd y rheoliadau clirio sydd yn Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002[a] yn berthnasol i'r dargludyddion uwchben a'r gwifrau daear ffeibr-optig ac, felly, yn cyfyngu ar y terfynau gwyro at i lawr oherwydd rhaid cynnal y rheoliadau clirio hynny;

---

[a] O.S. 2002/2665.

(d) o ran y prif dwnnel dan ddaear, mae’r terfynau gwyro fertigol at i fyny yn golygu bod y pellter isaf posibl a gedwir rhwng brig y twnnel a'r creigwely yn 10 metr bob amser. Bydd y gwyro fertigol at i lawr ar gyfer y prif dwnnel dan ddaear yn amrywio i'r graddau mae’r ymgymerwr yn ei ystyried yn angenrheidiol neu’n hwylus; ac

(e) mae'r cynlluniau gwaith a’r lluniadau dylunio yn dangos y terfynau gwyro llorweddol ar gyfer y prif dwnnel dan ddaear. Mae cyflwr y ddaear yno, sy’n cynnwys dau ffawt daearyddol, yn dylanwadu ar y dull ar gyfer y terfynau gwyro fertigol a llorweddol o ran y prif dwnnel. Felly, mae’r terfynau gwyro llorweddol yn fwy llydan. Mae hynny’n golygu, waeth pa gyflwr ydy’r ddaear, mae digon o hyblygrwydd i ddarparu’r adran twnnel o fewn y terfynau gwyro llorweddol a fertigol.

6.11 O ran strwythurau, adeiladau a chyfarpar eraill uwchben y ddaear, gan gynnwys is-orsafoedd a chompowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio, sy’n rhan o’r datblygiad awdurdodedig, ni fydd gwyriad at i fyny yn fwy na’r uchder mwyaf posibl a ddangosir yn y cynlluniau o’r paramedr (yn y lluniadau dylunio), a bydd unrhyw wyriad llorweddol o fewn y paramedrau a ddangosir yn y cynlluniau o’r paramedr (yn y lluniadau dylunio).

6.12 Pwrpas y ddarpariaeth hon ydy darparu’r hyblygrwydd angenrheidiol wrth adeiladu’r datblygiad awdurdodedig, gan leihau’r perygl na ellir gweithredu’r prosiect fel y cafodd ei gymeradwyo yn nes ymlaen o ganlyniad i resymau peirianyddol neu ddaearegol annisgwyl. Wedi dweud hynny, wrth edrych ar bob terfyn gwyro ar gyfer y llinell drydan uwchben at ei gilydd, mae’r hyblygrwydd cyffredinol yn fwy cyfyngedig oherwydd mae’r cyfuniad o’r terfynau gwyro hyn yn cyfyngu ar y terfynau gwyro unigol. Ar ben hynny, bydd yr amcan o gynnal cysondeb â’r llinell drydan uwchben bresennol yn diffinio’r terfynau gwyro hyn ymhellach.

6.13 Mae terfynau gwyro llorweddol yr holl waith llinellol i’w gweld yn y cynlluniau gwaith. Mae’r rhain yn cyfyngu ar leoliad y gwaith llinellol o fewn y terfynau gwyro, ond mae'r diffiniad yn caniatáu cyflawni gweithgareddau adeiladu ar gyfer y gwaith hwnnw unrhyw le o fewn terfynau'r Gorchymyn.

6.14 Mae dull tebyg i’r gwaith ar y llinell uwchben wedi cael ei fabwysiadu yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Gorsaf Bŵer King’s Lynn B) y National Grid 2013[a], ond mae’r Gorchymyn yn esbonio’r terfynau gwyro i ystyried y gwahanol ofynion ar gyfer pob elfen o'r datblygiad awdurdodedig.

[a] O.S. 2013/3200.

*Erthygl 6 (Budd y Gorchymyn)*

6.15 Mae’r erthygl hon yn gwyro oddi wrth y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol (erthygl 4) ac yn disodli adran 156(1) y Ddeddf (fel y caniateir gan adran 156(2)) a fyddai, os câi ei rhoi ar waith, yn dwyn budd y Gorchymyn i unrhyw un â buddiant yn y tir. Fel arfer, dim ond y corff y rhoddir y pwerau statudol iddo caiff eu harfer.

6.16 Yn yr achos hwn, mae’n briodol i bwerau'r Gorchymyn, yn amodol ar erthygl 7 (Cydsyniad i drosglwyddo budd y Gorchymyn), gael eu harfer gan y National Grid yn unig (neu SP Manweb yn achos Gwaith SP Manweb).

6.17 Mae erthygl 6(1) yn cadarnhau hyn, gan nodi ym mharagraff (1) bod y darpariaethau hynny yn y Gorchymyn mewn cysylltiad â’r datblygiad awdurdodedig er budd y National Grid, a’r darpariaethau hynny mewn cysylltiad â Gwaith SP Manweb er budd SP Manweb (oni bai fod SP Manweb yn methu cyflawni Gwaith SP Manweb a bod y National Grid yn rhoi hysbysiad ei fod yn bwriadu cyflawni Gwaith SP Manweb yn lle).

6.18 O ganlyniad, mae SP Manweb yn cael budd y Gorchymyn yn ogystal â'r National Grid, cyn belled ag y mae Gwaith SP Manweb yn y cwestiwn, gan gynnwys y pwerau i gael y buddiannau angenrheidiol mewn tir ac i feddiannu tir dros dro.

6.19 Mae’r dull hwn hefyd yn diogelu gallu'r National Grid i gyflawni Gwaith SP Manweb ei hun (os bydd angen) fel rhan o’r datblygiad awdurdodedig.

6.20 Yn ôl erthygl 6(3), ni all SP Manweb arfer y cydsyniad datblygu a roddir iddo ar gyfer Gwaith SP Manweb heb gydsyniad y National Grid. Bydd hynny’n ddarostyngedig i amodau rhesymol a osodir gan y National Grid hefyd.

6.21 Mae erthyglau 6(4) a (5) yn cadarnhau y gall y National Grid gyflawni Gwaith SP Manweb (neu’r rhan berthnasol ohono) os bydd SP Manweb yn methu cyflawni'r Gwaith (neu ran ohono), a hynny drwy hysbysu SP Manweb a’r Ysgrifennydd Gwladol. Maent hefyd yn cadarnhau y bydd SP Manweb felly yn rhoi’r gorau i gael budd erthyglau 3(1)(b) a 6(1)(b) ar y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad ac y gall y National Grid elwa ar bwerau meddiannu dros dro SP Manweb o dan erthygl 27. Nid ydy diddymu gallu SP Manweb i ddibynnu ar erthyglau 3(1)(b) a 6(1)(b) yn effeithio ar ei allu i gadw'r llinell drydan a gwaith arall sy’n rhan o Waith SP Manweb wedi’u gosod, na’i allu i gynnal a chadw Gwaith SP Manweb. Felly, byddai unrhyw waith a gyflawnir a chamau a gymerir cyn i’r National Grid gyhoeddi'r hysbysiad yn dal wedi’u hawdurdodi’n briodol. Mae geiriad erthygl 6(5) yn dilyn Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) 2017 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cywiro Prosiect Cysylltiad Richborough 2018) yn agos.

6.22 Mae darpariaethau'r erthygl hon yn debyg iawn i'r rheini yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, heblaw bod paragraff (2) wedi cael ei ychwanegu, sy'n adlewyrchu'r drafftio yn y Gorchymyn Piblinell Traws Gwlad CCS Swydd Efrog a'r Humber drafft (fel yr hyrwyddwyd gan National Grid Carbon). Mae paragraff (2) yn eithrio gwaith a gyflawnir er budd neu ddiogelwch unigolion neu dir y mae'r datblygiad awdurdodedig yn effeithio arnynt, fel ei bod yn glir yn yr achosion hyn nad ydy budd y "caniatâd cynllunio" sy'n cyfateb i'r Gorchymyn, h.y. cydsyniad datblygu, ar gyfer y gwaith lliniaru hwn yn bersonol i'r ymgymerwyr, a'i fod yn berthnasol i ddefnyddwyr y tir perthnasol hefyd.

*Erthygl 7 (Cydsyniad i drosglwyddo budd y Gorchymyn)*

6.23 Mae'r erthygl hon yn caniatáu i holl fuddion darpariaeth y Gorchymyn, neu rai ohonynt, gael eu trosglwyddo i eraill, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae geiriad erthygl 7 yn seiliedig ar erthygl 5 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, gyda mân addasiadau sy'n benodol i'r prosiect, ac mae'n debyg iawn i erthygl 7 Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) 2017.

6.24 Mae erthygl 7(3) yn sicrhau bod unrhyw barti arall sy'n arfer unrhyw fuddion neu hawliau a roddir iddo drwy drosglwyddiad neu rodd, yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau, rhwymedigaethau a dyletswyddau a fyddai'n berthnasol pe bai'r National Grid neu SP Manweb yn arfer y buddion a'r hawliau hynny.

6.25 Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6 o ran unrhyw hawliau neu fuddion mewn cysylltiad â Gwaith SP Manweb sy'n cael eu trosglwyddo neu eu rhoi gan SP Manweb.

*Erthygl 8 (Cymhwyso Deddf 1990)*

6.26 Mae erthygl 8(1) yn berthnasol i'r gwaith penodol a fyddai, er ei fod yn waith dros dro, yn ei le am gyfnod sylweddol. Mae'r erthygl yn cymhwyso adran 57(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 at y gwaith hwnnw i egluro nad oes rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer ailddechrau, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, y pwrpas yr oedd y tir hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer yn wreiddiol cyn rhoi'r cydsyniad datblygu. Mae darpariaeth debyg yn erthygl 10 Gorchymyn (Gorsaf Gynhyrchu Niwclear) Hinkley Point C y National Grid 2013[a] ac yn erthygl 8 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, ac mae'n briodol yn yr achos hwn er mwyn osgoi baich gweinyddol anghymesur ar dirfeddianwyr a'r awdurdod cynllunio perthnasol ar ôl i'r gwaith adeiladu dros dro hwn ddod i ben.

6.27 Mae erthygl 8(2) yn dilyn erthygl 36 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol ac yn darparu y caiff y cydsyniad datblygu a roddir gan y

[a] O.S. 2013/648.

Gorchymyn ei drin, at ddibenion adran 264(3)(a) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel caniatâd cynllunio penodol. Mae hyn yn golygu mai'r tir sy'n destun y prosiect awdurdodedig fydd tir gweithredol yr ymgymerwr fel ymgymerwr statudol ac, felly, y bydd yn dir y mae gan y National Grid a/neu SP Manweb hawl i gyflawni ei ymgymeriad arno. Caiff ymgymerwyr statudol wneud cais am ganiatâd cynllunio ar eu tir gweithredol o dan adran 266 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog priodol fydd yn delio â'r cais hwnnw. Ar ben hynny, efallai y bydd rhai hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol mewn cysylltiad â thir gweithredol. Mae cynnwys hyn yn y Gorchymyn drafft yn briodol ac yn gymesur oherwydd ar ôl i'r gwaith gael ei adeiladu a chyrraedd y cam gweithredu, bydd yn cael ei drin fel rhan o'r rhwydwaith ehangach y bydd yn rhan ohono, a hynny ar sail gyfreithiol gyfartal. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd wedi'i chynnwys yn erthygl 37 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, ac erthygl 36 Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017.

6.28 Ym mharagraff (3) mae darpariaeth ychwanegol wedi'i gwneud er mwyn darparu ar gyfer caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â phwerau i gyflawni gwaith stryd penodol (yn unol ag erthygl 11(2)). Y rheswm am hyn ydy bod materion o'r fath y tu allan i derfynau'r Gorchymyn efallai, ac felly mae'r erthygl yn darparu nad ydy gwaith o'r fath yn cael ei ystyried yn ddatblygiad. Mae erthygl 8(2) a (3) yn adlewyrchu darpariaethau erthygl 51 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014, ac mae erthygl 8(2) hefyd wedi'i chynnwys yn erthygl 37 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

*Erthygl 9 (Cymhwyso Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010)*

6.29 Mae'r erthygl hon yn berthnasol i'r gwaith penodol a fyddai, er ei fod dros dro, yn ei le am gyfnod sylweddol. Mae'n darparu y bydd y cydsyniad datblygu a roddir ar gyfer y gwaith dros dro yn cael ei drin, at ddibenion Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, fel caniatâd cynllunio a roddir am gyfnod dros dro. Ni ellir codi'r ardoll seilwaith cymunedol ar ganiatâd cynllunio dros dro, felly effaith hyn fyddai eithrio'r gwaith dros dro penodol o ddarpariaethau codi'r ardoll seilwaith cymunedol. Mae geiriad yn union yr un fath wedi'i gynnwys yn erthygl 9 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017.

*Erthygl 10 (Caniatâd cynllunio)*

6.30 Cyn belled ag y mae angen i'r National Grid gael caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r datblygiad awdurdodedig (h.y. i hwyluso'r gwaith o'i gwblhau, ei adeiladu, ei ddefnyddio neu ei weithredu), mae'r erthygl hon yn ceisio osgoi unrhyw gwestiwn o ran y rhyngwynebu rhwng unrhyw ganiatâd cynllunio o'r fath a'r Gorchymyn

hwn (h.y. ni fydd y caniatadau cynllunio hyn yn golygu bod telerau'r Gorchymyn hwn wedi cael eu torri).

## 7 Rhan 3 – Strydoedd

*Erthygl 11 (Gwaith stryd)*

7.1 Mae'r erthygl hon yn rhoi hawl i'r ymgymerwr ymyrryd â gwaith mewn neu o dan strydoedd penodol, neu weithredu gwaith o'r fath, sydd wedi'i nodi yn Atodlen 5 (strydoedd sy'n destun gwaith stryd) o fewn Terfynau'r Gorchymyn ac ar strydoedd eraill o fewn neu'r tu allan i Derfynau'r Gorchymyn at ddibenion (neu ddibenion atodol i) y datblygiad awdurdodedig. Mae'r erthygl hon yn dilyn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol ac eithrio'r canlynol:

(a) Mae erthygl 8(3) y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol wedi'i dileu oherwydd credir y gallai'r ddarpariaeth enghreifftiol achosi dryswch. Tybir mai bwriad paragraff (3), sy'n cymhwyso adrannau 54 i 106 Deddf 1991 at unrhyw awdurdod gwaith stryd, ydy sicrhau bod darpariaethau perthnasol Deddf 1991 sy'n berthnasol i waith stryd hefyd yn berthnasol i waith arall ar strydoedd a awdurdodir gan yr erthygl hon. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth fel y mae wedi'i drafftio yn achosi rhywfaint o ddryswch. Mae'n ymddangos yn fwy synhwyrol i ymestyn erthygl 12 y Gorchymyn sy'n cymhwyso rhai o ddarpariaethau Deddf 1991 at gau strydoedd dros dro, hyd yn oed os nad oes unrhyw waith stryd (o fewn ystyr Deddf 1991) yn cael ei wneud.

(b) Mae'r rhestr o'r mathau o waith y mae gan yr ymgymerwyr hawl i'w gwneud wedi cael ei hehangu o erthygl 8(1) y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Mae erthygl 11(1)(a) wedi'i hymestyn i alluogi torri neu agor unrhyw garthffos, draen neu dwnnel yn y stryd. Mae erthygl 11(1)(b) wedi'i haddasu i ychwanegu cyflawni unrhyw waith i gryfhau neu drwsio'r ffordd gerbydau. Mae erthygl 11(1)(c) wedi'i chynnwys i adlewyrchu'r pwerau gwaith stryd sydd ar gael i'r National Grid ym mharagraff 1(b)(iii) Atodlen 4 Deddf Trydan 1989[a]. Mae erthygl 11(1)(e) yn caniatáu cynnal a chadw, adnewyddu neu addasu cyfarpar yn y stryd neu arni, neu newid ei safle. Mae erthygl 11(1)(f) yn cynnwys yr hawl i ddarparu neu wella llinellau golwg sy'n ofynnol gan yr awdurdod priffyrdd. Mae erthygl 11(1)(g) yn cynnwys yr hawl i ddarparu a chynnal a chadw mesurau tirweddu caled neu feddal yn y stryd. Mae erthygl 11(1)(h) yn cynnwys yr hawl i ail-leinio a gosod marciau dros dro. Mae'r darpariaethau ychwanegol hyn yn ymwneud â'r datblygiad awdurdodedig, fel y caniateir gan adrannau 120(3) a (4) ynghyd ag eitem 15 Rhan 1 o Atodlen 5 y Ddeddf, sef cyflawni gwaith peirianneg sifil neu waith arall. Maent hefyd yn

---

[a] c. 29.

angenrheidiol ac yn fuddiol i weithredu’n llawn y pŵer i gyflenwi'r datblygiad a awdurdodir o dan erthygl 3 y Ddeddf (*cydsyniad datblygu ayb a roddir gan y Gorchymyn*), fel y caniateir o dan adran 120(5) y Ddeddf.

(c) Mae erthygl 11(2) wedi cael ei chymryd o erthygl 11(2) Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014, gyda mân addasiad sydd wedi’i ddisgrifio isod. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i’r ymgymerwr (gyda chaniatâd yr awdurdod strydoedd) fynd i unrhyw stryd arall (h.y. un nad yw wedi’i rhestru yn Atodlen 5, boed o fewn terfynau'r Gorchymyn ai peidio) at ddibenion y datblygiad awdurdodedig ac, yn yr achos hwn, at ddibenion sy’n atodol i’r datblygiad awdurdodedig, er mwyn cyflawni'r gwaith stryd a awdurdodir gan erthygl 11(1). Y rhesymeg dros gynnwys y gallu hwn i wneud gwaith stryd ar strydoedd nad ydynt wedi’u rhestru yn Atodlen 5 a/neu sydd y tu allan i derfynau’r Gorchymyn ydy darparu ar gyfer unrhyw achos lle mae’r ymgymerwr, wrth gyflenwi’r datblygiad awdurdodedig, yn gweld ei bod yn angenrheidiol gwneud gwaith stryd ychwanegol nad yw wedi’i restru yn yr Atodlen a/neu sydd y tu allan i derfynau’r Gorchymyn. Mae’n rhoi hyblygrwydd i'r awdurdod strydoedd roi cydsyniad i waith stryd o’r fath o fewn cwmpas y DCO, yn hytrach na golygu bod cydsyniad unigol ar wahân yn angenrheidiol. Mae hyn yn caniatáu cyflawni gwaith o’r fath gan ddilyn yr un set o reolaethau a nodir yn y DCO, gan y byddai gwaith stryd o’r fath yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflenwi'r datblygiad awdurdodedig.

(d) Mae is-baragraff newydd (4) wedi cael ei gynnwys i'w gwneud yn glir nad ydy unrhyw bwerau a roddir o dan erthygl 11 yn cyfyngu ar y rheini a roddir o dan Ddeddf Trydan 1989. Mae darpariaeth sy’n union yr un fath wedi’i chynnwys yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016**.**

7.2 Mae darpariaeth enghreifftiol cyffredinol 8(2), fel yr adlewyrchir yn erthygl 11(3) yn darparu bod yr hawl a roddir gan baragraff (1) yn “hawl statudol” at ddibenion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991[a]. Mae’r hawl a roddir gan yr erthygl hon yn hawl statudol at ddibenion adran 48(3) (Strydoedd, gwaith stryd ac ymgymerwyr) a 51(1) (gwahardd gwaith stryd heb ei awdurdodi) Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, sy’n golygu bod y Gorchymyn yn cymryd lle'r angen i wneud cais am drwydded gwaith stryd o dan y Ddeddf honno.

---

[a] c. 22.

*Erthygl 12 (Cymhwyso Deddf 1991)*

7.3 Mae’r erthygl hon yn gwyro oddi wrth y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol er mwyn darparu y bydd darpariaethau perthnasol Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 yn berthnasol i achos o gau stryd dros dro o dan erthygl 14, hyd yn oed os nad oes unrhyw waith stryd (o fewn yr ystyr yn Neddf 1991) yn cael ei wneud. Byddai hyn, er enghraifft, yn mynnu bod y National Grid yn gwneud trefniadau, cyn belled ag y bo’n ymarferol, i ddarparwyr cyfleustodau gael mynediad at ei gyfarpar. Mae darpariaethau tebyg yn cael eu cynnwys yn aml yng Ngorchmynion y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, ac maent wedi ymddangos mewn Gorchmynion Cydsyniad Datblygu hefyd. Mae geiriad sy’n union yr un fath yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid.

7.4 Mae’r erthygl hon yn osgoi dryswch o ran a ydy gwaith mewn cysylltiad â stryd sydd wedi’i chau dros dro yn ‘waith stryd’ at ddibenion Deddf 1991, ac yn symleiddio'r broses o weithredu’r gwaith hwn drwy ddarparu ar gyfer un broses mewn cysylltiad â’r strydoedd sydd wedi’u cau a’r rheini nad ydynt wedi’u cau.

*Erthygl 13 (Pŵer i addasu cynllun strydoedd ayb)*

7.5 Mae'r erthygl hon yn caniatáu i'r National Grid ac unrhyw un arall â budd y Gorchymyn addasu, un ai’n barhaol neu dros dro, cynllun y strydoedd a restrir yn Rhan 1 (parhaol) a Rhan 2 (dros dro) o Atodlen 6 (strydoedd sy’n destun newid cynllun) y Gorchymyn at ddibenion y datblygiad awdurdodedig.

7.6 Mae Erthygl 13(2) yn darparu pŵer ehangach i addasu cynllun unrhyw stryd o fewn neu y tu allan i derfynau’r Gorchymyn (h.y. lle nad ydy’r stryd wedi’i rhestru yn Atodlen 6) a chynllun unrhyw stryd sy’n rhannu cyffordd â stryd o’r fath. Rhaid cael caniatâd yr awdurdod strydoedd, ac ni ddylid gwrthod neu oedi caniatâd o’r fath yn afresymol.

7.7 Yn y Gorchymyn hwn mae’r rhesymeg ar gyfer y pŵer ehangach hwn, sydd wedi’i ddyblygu rhywle arall yn y Gorchymyn, yn deillio o adran 120(3) Deddf 2008, sy’n ei gwneud yn glir y caiff gorchymyn sy’n rhoi cydsyniad datblygu wneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer, neu mewn cysylltiad â materion sy’n atodol iddo.

7.8 Mae erthygl 13(3) yn darparu bod rhaid i unrhyw stryd sy’n cael ei newid dros dro gael ei hadfer i foddhad rhesymol yr awdurdod strydoedd.

7.9 Nid ydy’r erthygl hon wedi’i chynnwys yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Mae cynsail i’r math hwn o ddarpariaeth mewn cynlluniau llinellol diweddar a awdurdodir gan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd

1992[a] ac mae'n seiliedig ar y Cymalau Enghreifftiol i Dramffyrdd sydd yn Atodlen 2 Gorchymyn (Cymalau Enghreifftiol i Reilffyrdd a Thramffyrdd) Trafnidiaeth a Gweithfeydd 2006[b]. Mae geiriad tebyg wedi cael ei gynnwys mewn ceisiadau eraill am orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer prosiectau llinellol, fel Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016; Gorchymyn (Prosiect Atgyfnerthu Gogledd Llundain) y National Grid) 2014; Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014; a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (North Doncaster Chord) Network Rail 2012.

7.10 Fel yr esboniwyd yn gynharach, os na fydd awdurdod strydoedd yn ymateb i gais am gydsyniad cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud, ystyrir ei fod yn cydsynio. Mae'r rhesymeg ar gyfer darpariaethau cydsyniad tybiedig o'r fath wedi'i nodi uchod ym mharagraffau 4.3 – 4.5.

7.11 Mae'r ddarpariaeth hon yn angenrheidiol ac yn fuddiol i weithredu'n llawn y pŵer i gyflenwi'r datblygiad awdurdodedig fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 120(5) y Ddeddf.

*Erthygl 14 (Cau strydoedd a hawliau tramwy cyhoeddus dros dro)*

7.12 Mae'r erthygl hon yn darparu ar gyfer cau, addasu neu ddargyfeirio strydoedd neu hawliau tramwy cyhoeddus a ddangosir yn y cynlluniau mynediad a hawliau tramwy neu o fewn terfynau'r Gorchymyn. O ran y strydoedd a'r hawliau tramwy cyhoeddus hynny a restrir yn Atodlen 7, rhaid i'r National Grid ymgynghori â'r awdurdod strydoedd perthnasol yn gyntaf. O ran y strydoedd a'r hawliau tramwy cyhoeddus nad ydynt wedi'u rhestru yn yr Atodlen, rhaid cael cydsyniad yr awdurdod strydoedd (a gaiff orfodi amodau rhesymol). Ni ddylai cydsyniad o'r fath gael ei wrthod neu ei oedi'n afresymol.

7.13 Mae'r erthygl hon, ac Atodlen 7 sy'n berthnasol iddo, yn gwyro oddi wrth y ddarpariaeth enghreifftiol gyffredinol mewn sawl ffordd. Yn arbennig, mae wedi cael ei hehangu i ddelio â hawliau tramwy cyhoeddus hefyd (dim ond ar gyfer cau llwybrau troed yn barhaol y mae'r darpariaethau enghreifftiol cyffredinol yn darparu). Cafodd y dull hwn ei fabwysiadu yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Gorsaf Bŵer King's Lynn B) y National Grid 2013 a Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

7.14 Mae paragraff newydd (2) yn rhoi pŵer i'r National Grid ddefnyddio stryd neu hawl dramwy gyhoeddus, sydd wedi cael ei chau, ei haddasu neu ei dargyfeirio, fel safle gwaith dros dro. Mae cynsail i'r ddarpariaeth hon mewn gorchmynion diweddar a wnaed o dan Ddeddf Trafnidiaeth

---

[a] Gweler Gorchymyn (Hitchin (Cyffordd Caergrawnt)) Network Rail 2011 (O.S. 2011/1072).

[b] O.S. 2006/1954.

a Gweithfeydd 1992[a] ac mae'r geiriad yn y Gorchymyn yn union yr un fath â'r geiriad yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

7.15 Mae paragraff (4) yn diwygio erthygl 14(3) y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i'r National Grid, pan fydd yn cau strydoedd neu hawliau tramwy cyhoeddus, ddarparu dargyfeiriadau dros dro mewn cysylltiad â'r strydoedd a'r hawliau tramwy cyhoeddus a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 7.

7.16 Mae paragraff (7) wedi cael ei ychwanegu (fel yr esboniwyd yn gynharach) er mwyn gorfodi cyfyngiad amser o 28 diwrnod i awdurdod strydoedd ymateb i gais am gydsyniad. Os na fydd wedi ymateb o fewn y cyfnod hwn, ystyrir ei fod yn cydsynio. Pwrpas hynny ydy peidio ag oedi'r prosiect yn ddiangen. Mae'r ddarpariaeth hon wedi cael ei defnyddio mewn gorchmynion cydsyniad datblygu eraill, fel Gorchymyn (Ipswich Cord) Network Rail 2012 a Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016. Gan fod y gwaith a gynigir o dan baragraff (5)(b) yn waith dros dro, ac y bydd y ddarpariaeth hon yn darparu rhagor o hyblygrwydd a sicrwydd wrth gyflenwi'r datblygiad awdurdodedig, ystyrir bod cyfiawnhad dros y dull hwn.

*Erthygl 15 (Mynediad at waith)*

7.17 Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar erthygl 12 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol ac yn rhoi pwerau i'r ymgymerwr at ddibenion y datblygiad awdurdodedig, a dibenion atodol, i ddarparu neu wella mynediad at y lleoliadau a nodir yn Atodlen 8 (mynediad at waith).

7.18 Rhoddir pwerau tebyg mewn cysylltiad ag unrhyw leoliad arall o fewn terfynau'r Gorchymyn y mae angen rhesymol amdano ar gyfer y datblygiad awdurdodedig, cyn belled â bod yr awdurdod cynllunio perthnasol yn cydsynio ar ôl ymgynghori â'r awdurdod priffyrdd (ni ddylid gwrthod neu oedi cydsyniad o'r fath yn afresymol). Y rhesymeg ar gyfer cynnwys y gallu hwn i sefydlu mynediadau rhywle arall o fewn terfynau'r Gorchymyn ydy darparu ar gyfer unrhyw achos lle mae'r ymgymerwr, wrth gyflenwi'r datblygiad awdurdodedig, yn gweld ei bod yn angenrheidiol ceisio mynediadau ychwanegol nad ydynt wedi'u rhestru yn yr Atodlen. Mae'n rhoi hyblygrwydd i'r awdurdod strydoedd roi cydsyniad i fynediadau o'r fath o fewn cwmpas y DCO, yn hytrach na gwneud cydsyniad unigol ar wahân yn angenrheidiol. Mae hyn yn caniatáu darparu mynediadau o'r fath gan ddilyn yr un set o reolaethau a nodir yn y DCO, gan y byddai mynediadau o'r fath yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflenwi'r datblygiad awdurdodedig. Cafodd yr un dull ei

[a] Gweler Gorchymyn (Thameslink 2000) Network Rail 2006 (O.S. 2006/3117); Gorchymyn (Nuneaton North Chord) Network Rail 2010 (O.S 2010/1721); a Gorchymyn (Hitchin (Cyffordd Caergrawnt)) Network Rail 2011 (O.S. 2011/1072).

fabwysiadu yng Ngorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014.

7.19 Os na fydd yr awdurdod yn ymateb i gais am gydsyniad cyn pen 28 diwrnod (fel yr esbonir uchod), ystyrir ei fod wedi rhoi cydsyniad o dan erthygl 15(2). Mae erthygl 15(2) yn adlewyrchu Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017. Mae'r rhesymeg ar gyfer darpariaethau cydsyniad tybiedig o’r fath wedi’i nodi uchod ym mharagraffau 4.3 – 4.5.

*Erthygl 16 (Adeiladu, addasu a chynnal a chadw strydoedd)*

7.20 Mae erthygl 16 yn seiliedig ar erthygl 10 Darpariaethau Enghreifftiol y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, ac mae’n dyblygu erthygl 12 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014.

7.21 Mae’n creu mecanwaith lle gellir mabwysiadu unrhyw stryd a adeiladir neu ardal o stryd a newidir o dan y Gorchymyn i'w chynnal a chadw gydag arian cyhoeddus, os caiff ei chwblhau i foddhad rhesymol yr awdurdod priffyrdd lleol ac ar ôl cyfnod cynnal a chadw penodol.

7.22 Mae'r ddarpariaeth hon yn angenrheidiol i hwyluso’r broses o fabwysiadu stryd newydd yn dilyn yr addasiadau arfaethedig i strydoedd o ganlyniad i erthygl 12 (pŵer i addasu cynllun ayb strydoedd) y Gorchymyn.

7.23 Gellir cynnwys y ddarpariaeth hon fel darpariaeth atodol i'r cydsyniad ar gyfer y prosiect awdurdodedig yn erthygl 3 y Gorchymyn drafft (cydsyniad datblygu ayb a roddir gan y Gorchymyn) o dan adran 120(5) y Ddeddf.

7.24 Mae’r erthygl yn mynd ymhellach na’r Ddarpariaeth Enghreifftiol gan ei bod hefyd yn ceisio delio (erthygl 16(3)) â phennu’r stryd wedi’i haddasu lle mae’r addasiadau wedi arwain at greu priffordd gyhoeddus newydd, ar ddiwedd y cyfnod cynnal a chadw 12 mis.

7.25 Gwneir darpariaeth atodol bellach i’r ymgymerwr gael amddiffyniad yn erbyn hawliadau am golled neu ddifrod o ganlyniad i fethu cynnal a chadw unrhyw stryd o dan yr erthygl hon, os yw’n gallu profi ei fod wedi cymryd pob gofal a oedd yn rhesymol angenrheidiol yn yr amgylchiadau i sicrhau nad oedd y rhan berthnasol o'r stryd yn beryglus i draffig. Mae'r erthygl yn nodi’r ffactorau y gall llys eu hystyried wrth ystyried yr amddiffyniad hwn. Ni chrëir unrhyw drosedd.

7.26 Y rhesymeg ar gyfer ei chynnwys ydy darparu proses yn y Gorchymyn sy’n mynd i’r afael â statws stryd newydd. Fodd bynnag, bydd modd bob amser i'r ymgymerwr a’r awdurdod strydoedd ymrwymo i unrhyw gytundeb yn unol ag erthygl 17 (gweler isod).

*Erthygl 17 (Cytundebau ag awdurdodau strydoedd*)

7.27 Mae'r erthygl hon yn dilyn erthygl 13 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol yr oedd Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 yn seiliedig arno, ac mae'n caniatáu i'r National Grid a'r awdurdod strydoedd perthnasol ymrwymo i gytundebau ynghylch gwaith stryd sy'n angenrheidiol yn sgil y prosiect, a fyddai (ymysg materion eraill) yn caniatáu i'r awdurdod lleol gyflawni gwaith o'r fath o dan delerau'r cytundeb hwnnw.

7.28 Fel y caniateir gan adran 120(5)(d) y Ddeddf, mae'r darpariaethau ychwanegol ym mharagraffau 1(e), 2(c) a 2(e) yn ategu'r pwerau ym mharagraffau 1(a) a 2(a) ac erthygl 4 y Gorchymyn (cynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig), a fyddai'n caniatáu i strydoedd o'r fath gael eu trwsio. Mae'r paragraffau ychwanegol hyn wedi cael eu mabwysiadu o Orchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 (erthygl 17).

7.29 Mae'r pŵer sydd yn yr erthygl hon ar wahân i unrhyw gytundebau a wneir o dan adran 278 Deddf Priffyrdd 1980 (sydd ddim yn berthnasol i bwerau o dan y Gorchymyn ond yn berthnasol i awdurdod lleol yn datganoli ei bwerau (o dan adran 278 y Ddeddf honno)), ac felly mae'r erthygl hon yn angenrheidiol er mwyn caniatáu cytundebau o'r fath.

## 8 Rhan 4 – Pwerau ategol

*Erthygl 18 (Gollwng dŵr)*

8.1 Mae'r erthygl hon yn nodi'r amgylchiadau lle caiff y National Grid ollwng dŵr i garthffos neu gwrs dŵr. Yn ei hanfod, gellir gwneud hyn gyda chaniatâd perchennog y garthffos neu'r cwrs dŵr. Fel yr esboniwyd yn gynharach, os na fydd yr unigolyn y mae angen ei ganiatâd ar gyfer gollwng dŵr yn ymateb i gais am gydsyniad cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud, ystyrir bod cydsyniad yn cael ei roi. Mae'r rhesymeg ar gyfer darpariaethau cydsyniad tybiedig o'r fath wedi'i nodi uchod ym mharagraffau 4.3 – 4.5.

8.2 Er bod gwaith wedi cael ei wneud er mwyn deall y sefyllfa debygol, mae'n rhy gynnar i nodi lleoliad pob gollyngiad i gyrsiau dŵr preifat, oherwydd byddant yn benodol iawn i gyflwr y ddaear ar adeg adeiladu. Felly, ar hyn o bryd, nid ydy'r National Grid wedi siarad ag unrhyw berchnogion o'r fath, ond cysylltir â nhw cyn gynted ag y bydd hynny'n bosibl ac yn briodol. Bydd unrhyw berchennog a allai gael ei effeithio wedi cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar gyfer y prosiect.

8.3 Mae'r erthygl yn debyg i'r ddarpariaeth enghreifftiol gyffredinol (erthygl 14) heblaw am y canlynol yn arbennig:

(a) mae paragraff (8) wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu diddymiad adran 85 Deddf Adnoddau Dŵr 1991[a] (a gyfeirir ato yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol) a'r ffaith fod Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016[b] wedi cymryd ei lle; ac

(b) mae paragraff (9) wedi cael ei ychwanegu i ddarparu ar gyfer achos lle mae awdurdod wedi methu ymateb i gais am gymeradwyaeth neu gydsyniad o dan yr erthygl hon cyn pen 28 diwrnod, ac, os felly, ystyrir bod cydsyniad yn cael ei roi.

8.4 Mae'r erthygl hon yn debyg iawn i erthygl 16 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, ac eithrio'r amod na chaiff unrhyw berchennog carthffos neu ddraen cyhoeddus y mae'r ymgymerwr yn bwriadu ei agor wrthod neu oedi ei gydsyniad i agoriad o'r fath yn afresymol, ac nid oes rhaid i'r ymgymerwr gynnal a chadw cwrs dŵr neu garthffos neu ddraen cyhoeddus, na'r gwaith draenio. Bydd y cyfrifoldeb hwn ar yr ymgymerwr arferol fel y bo'n briodol. Mae diffiniad newydd ar gyfer "prif afon" wedi cael ei ychwanegu er eglurdeb ac mae diffiniad "cwrs dŵr" wedi cael ei ddileu i osgoi ailadrodd y diffiniad yn erthygl 2.

*Erthygl 19 (Gwaith amddiffyn)*

8.5 Mae'r erthygl hon yn nodi'r amgylchiadau lle gellir gwneud gwaith amddiffyn ar dir, adeiladau, strwythurau, cyfarpar neu offer, a hynny o fewn terfynau'r Gorchymyn neu y gallai'r datblygiad awdurdodedig effeithio arnynt. Heblaw mewn argyfwng, rhaid rhoi 14 diwrnod o rybudd i'r perchennog, a gall y perchennog geisio cyflafareddiad drwy gyflwyno gwrth-rybudd. Bydd y pŵer yn para am bum mlynedd ar ôl i'r rhan berthnasol o'r prosiect ddod yn weithredol. Mae hawl i gael iawndal am golled neu ddifrod.

8.6 Mae'r erthygl yn seiliedig ar erthygl 15 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Mae mecanweithiau tebyg i'w gweld yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 17 (Gwaith amddiffyn ar adeiladau)), Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017 (erthygl 17 (Gwaith amddiffyn ar adeiladau)), a Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 (erthygl 20 (Gwaith amddiffyn ar adeiladau a strwythurau fel y rhestrir mewn atodlen) a 21 (Gwaith adfer ar adeiladau, cyfarpar neu offer boed hynny o fewn terfynau'r Gorchymyn ai peidio)).

---

[a] c. 57.

[b] O.S. 2016/1154.

8.7 Mae'r Gorchymyn yn ymestyn y pŵer i gyflawni gwaith amddiffyn o adeiladau'n unig i dir, adeiladau, strwythurau, cyfarpar, offer (yn debyg i erthygl 21 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014) a'r datblygiad awdurdodedig, ac yn caniatáu i'r ymgymerwr gael mynediad at dir o fewn neu'r tu allan i derfynau'r Gorchymyn er mwyn arfer y pŵer hwn (lle bo hynny'n rhesymol angenrheidiol). Mae hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i natur linellol y datblygiad awdurdodedig ac o ystyried yr ystod o eitemau posibl a allai wneud gwaith amddiffyn yn angenrheidiol (sydd wedi'u diffinio yn is-baragraff (11) fel bod yn waith amddiffyn a gwaith adfer) ac, yn arbennig, bydd cynnwys y ddarpariaeth hon yn helpu i liniaru'r perygl o amgylchiadau annisgwyl yn niweidio'r gwaith o gyflenwi'r prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol hwn.

*Erthygl 20 (Hawl i arolygu ac ymchwilio i'r tir)*

8.8 Mae'r erthygl hon yn rhoi'r pŵer i fynd ar dir (sy'n cynnwys tir dan ddŵr) o fewn terfynau'r Gorchymyn neu dir y gallai'r datblygiad awdurdodedig effeithio arno, a hynny at ddiben arolygu, monitro neu ymchwilio i'r tir, gan gynnwys y pŵer i wneud tyllau treial, tyllau turio, gwaith cloddio a/neu gymryd creiddiau llorweddol (e.e. tyllau turio ar oledd at ddiben modelu ffawtiau daearegol), gwneud gwaith monitro neu ymchwiliadau ecolegol neu archaeolegol, a defnyddio a gadael cyfarpar (gan gynnwys cyfarpar wedi'i atodi at fwiau) ar y tir at y dibenion hyn. Mae'r pŵer mynediad yn ddarostyngedig i ofyniad i roi 14 diwrnod o rybudd i berchnogion a meddianwyr y tir. Rhaid talu iawndal am unrhyw golled neu ddifrod o ganlyniad i arfer y pŵer hwn. Mae'r pŵer i wneud tyllau treial yn gyfyngedig mewn cysylltiad â phriffyrdd neu strydoedd ac mae'n rhaid cael cydsyniad yr awdurdod strydoedd neu briffyrdd perthnasol. Bydd cydsyniad o'r fath yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth cymeradwyaeth dybiedig sydd wedi'i chyfiawnhau uchod.

8.9 Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 18) sydd, yn ei dro, yn seiliedig ar y ddarpariaeth enghreifftiol gyffredinol (gyda nifer o newidiadau drafftio). Mae paragraff 1(b) wedi cael ei ychwanegu i gynnwys y pŵer i arolygu ac ymchwilio i dir neu adeiladau er mwyn sefydlu effaith y datblygiad awdurdodedig, neu i alluogi'r datblygiad awdurdodedig i ddechrau. Mae'r paragraff newydd (1)(e) yn caniatáu i offer a ddefnyddir ar gyfer ymchwiliadau ecolegol neu archaeolegol gael eu gadael ar y tir (ynghyd â chyfarpar arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith o arolygu, monitro neu ymchwilio i'r tir). Mae'r ddau bŵer ychwanegol hyn wedi'u haddasu o ddarpariaethau Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 (erthygl 22) ac maent yn angenrheidiol i sicrhau bod yr erthygl hon yn darparu awdurdod ar gyfer y mathau o weithgareddau sy'n debygol o fod yn angenrheidiol mewn cysylltiad â'r datblygiad awdurdodedig.

8.10 Ar ben hynny, mae'r pŵer yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol wedi'i ymestyn i gynnwys i gallu i gymryd a phrosesu samplau o ddŵr,

aer, pridd neu graig, fflora, ysgarthiadau corfforol, cyrff meirw heb fod yn rhai dynol, neu unrhyw beth nad yw'n fyw sy'n bresennol o ganlyniad i weithredoedd dynol a ganfyddir ar y tir, ynddo neu drosto. Mae'r geiriad hwn yn adlewyrchu geiriad adran 53(3A) y Ddeddf sy'n egluro bod yr hawl i fynd ar dir at ddibenion arolygu yn cynnwys y pŵer i gymryd a phrosesu rhai mathau o samplau. Gallai hyn gael ei gynnwys mewn DCO o dan adran 120(4) ac eitem 12 Rhan 1 o Atodlen 5 y Ddeddf, sy'n gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer cynnwys pwerau i gynnal arolygon neu gymryd samplau o bridd.

8.11 Mae erthygl 20(4) yn sicrhau bod perchnogion yn cael manylion am ddiben yr ymgymerwr wrth arolygu, monitro neu ymchwilio i'r tir cyn i'r ymgymerwr fynd ar y tir, ac yn rhoi hawl i'r ymgymerwr fynd â cherbydau a chyfarpar angenrheidiol ar y tir er mwyn arolygu, monitro neu ymchwilio.

8.12 Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â'r datblygiad awdurdodedig, neu mae'n atodol iddo, a hynny o fewn cwmpas adran 120(3) y Ddeddf. Mae'n fater sydd wedi'i nodi'n benodol ym mharagraff 12, Atodlen 12 y Ddeddf sy'n nodi y gall gorchymyn cydsyniad datblygu ddarparu ar gyfer cynnal arolygon neu gymryd samplau o bridd.

*Erthygl 21 (Tynnu gweddillion dynol)*

8.13 Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar erthygl 17 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol ac erthygl 23 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014. Mae'n mynnu bod yr ymgymerwr, cyn iddo gyflawni unrhyw ddatblygiad neu waith a fydd yn amharu ar unrhyw weddillion dynol neu a allai amharu arnynt, yn tynnu'r gweddillion hynny. Cyn tynnu unrhyw weddillion dynol, rhaid i'r ymgymerwr gyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny. Rhaid dangos hysbysiad ger y safle hefyd.

8.14 Gall unrhyw berthynas neu gynrychiolydd personol o unrhyw berson sydd wedi marw y bwriedir tynnu ei weddillion, ar unrhyw adeg cyn pen 56 diwrnod ar ôl i'r ymgymerwr gyhoeddi hysbysiad am y tro cyntaf, roi rhybudd i'r ymgymerwr am ei fwriad i dynnu'r gweddillion ei hun a threfnu i'r gweddillion hynny gael eu hailgladdu neu eu llosgi. Yr ymgymerwr fydd yn gyfrifol am y costau rhesymol o ymateb i hysbysiad y National Grid a'r costau rhesymol o ailgladdu neu losgi'r gweddillion.

8.15 Yn yr achos nad ydy perthynas neu gynrychiolydd personol o'r fath yn tynnu'r gweddillion, rhaid i'r ymgymerwr gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol mae'r berthynas neu'r cynrychiolydd personol yn ei wneud mewn cysylltiad â thynnu ac ailgladdu neu losgi'r gweddillion.

8.16 Ar ben hynny, mae paragraff (16) yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn ac adrannau 238 a 239 Deddf 1990, sydd fel arfer yn caniatáu'r defnydd o dir cysegredig neu dir claddu yn unol â chaniatâd cynllunio er gwaethaf cyfraith eglwysig, fel bod tir sy'n cael ei gaffael ar gyfer y datblygiad

awdurdodedig neu a ddefnyddir dros dro ar ei gyfer, neu sy’n gysylltiedig â thir y mae hawliau’n cael eu caffael, yn cael yr un budd â’r adrannau hynny yn Neddf 1990 ag y byddai wedi ei gael pe bai'r Gorchymyn wedi bod yn ganiatâd cynllunio. Roedd Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 yn cynnwys darpariaeth debyg iawn (yn Atodlen 19, rhan 1, paragraff 9(2)), ac eithrio fod paragraff (16) yn egluro ymhellach dehongliad y derminoleg o Ddeddf 1990 o dan y Gorchymyn. Er y nodir bod darpariaeth debyg wedi’i thynnu o Orchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, ystyrir ei bod yn briodol ei chynnwys yn y Gorchymyn hwn, ac ystyried natur danddaearol y gwaith twnnel a siafft.

## 9 Rhan 5 – Pwerau Caffael

*Erthygl 22 (Caffael gorfodol ar dir)*

9.1 Mae’r erthygl hon yn awdurdodi caffael gorfodol ar hyn a hyn o dir y Gorchymyn a restrir yn y Llyfr Gorchwyl fel sy’n ofynnol i adeiladu, gweithredu neu gynnal a chadw’r datblygiad awdurdodedig, neu sy’n atodol iddo neu’n angenrheidiol i’w hwyluso. Mae hyn yn cynnwys tir yn safle is-orsaf Pentir, a’r ddau Brif Dŷ Twnnel a Chompowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio. Dim ond i’r National Grid mae’r erthygl hon yn berthnasol, oherwydd nid oes rhaid i SP Manweb gaffael unrhyw dir yn orfodol o ganlyniad i natur Gwaith SP Manweb.

9.2 Mae’r erthygl hon yn seiliedig ar erthygl 18(1) y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Nid ydy paragraffau (2) a (3) y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol wedi cael eu cynnwys. Byddai’r cyntaf yn darparu ar gyfer dileu unrhyw hawliau sy’n berthnasol i dir y Gorchymyn yn awtomatig cyn gynted ag y mae wedi’i freinio yn yr ymgymerwr. Mae hyn yn anghyson â’r ddarpariaeth enghreifftiol gyffredinol ar hawliau tramwy cyhoeddus, sy’n darparu ar gyfer dileu’r cyfryw hawliau mynediad ar y tir, a allai ddigwydd cyn breinio’r tir. Gallai’r breinio ddigwydd ar ôl cyflawni'r gwaith, sy’n gwrthdaro â'r hawliau dan sylw. Felly, penderfynwyd ei bod yn well ymestyn y cymal enghreifftiol “hawliau tramwy” i ddelio â hawliau preifat yn gyffredinol. Gan hynny, mae paragraffau (2) a (3) wedi cael eu hepgor o’r erthygl hon.

9.3 Mae cynnwys geiriad yn erthygl 22 sy’n awdurdodi caffael gorfodol ar dir sy’n ofynnol ar gyfer y datblygiad awdurdodedig, neu sy’n atodol iddo neu’n angenrheidiol i’w hwyluso, yn seiliedig ar adran 122(2) Deddf 2008, sy’n ei gwneud yn glir bod yn rhaid i gaffael gorfodol ar dir ayb fod yn ofynnol ar gyfer y datblygiad y mae’r cydsyniad datblygu yn berthnasol iddo, yn angenrheidiol i'w hwyluso neu’n atodol i'r datblygiad hwnnw, neu’n dir cyfnewid.

9.4 Yn amodol ar yr uchod, mae geiriad sydd bron yn union yr un fath yn ymddangos yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 19).

*Erthygl 23 (Caffael gorfodol ar hawliau*)

9.5 Mae’r erthygl hon yn caniatáu i’r National Grid gaffael hawliau (a gorfodi cyfyngiadau) ar dir y Gorchymyn, gan gynnwys drwy greu hawliau newydd at ddiben y datblygiad awdurdodedig.

9.6 Mae paragraff (1) yn darparu y caiff y National Grid gaffael neu greu hawliau fel y disgrifir yn y Llyfr Gorchwyl, gyda hyd a lled a natur gyffredinol yr hawliau hyn i’w gweld yn y cynlluniau tir hefyd.

9.7 Yn ogystal â darparu ar gyfer caffael hawliau, mae’r erthygl yn galluogi’r National Grid i orfodi cyfyngiadau (fel y disgrifir yn y Llyfr Gorchwyl) ar dir y Gorchymyn at ddibenion y datblygiad awdurdodedig. Mae’r pŵer hwn i orfodi cyfyngiadau ar y defnydd o dir yn cael ei ystyried yn ddull cymesur ar gyfer diogelu’r datblygiad awdurdodedig gan leihau maint y tir i’w gaffael yn orfodol. Mae’r pŵer hwn wedi ymddangos mewn Gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae’n rhaid cyfyngu ar ddefnydd o dir neu ofod awyr uwchben neu o dan ddatblygiad awdurdodedig sy’n cynnwys traphont neu dwnnel. Mae’r pŵer yn y Gorchymyn bron yn union yr un fath â’r pŵer sydd yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, ac eithrio fod yr erthygl hefyd yn ddarostyngedig i erthygl 22 (caffael gorfodol ar dir) nad oedd yn berthnasol i Orchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017 oherwydd yn yr achos hwnnw, dim ond hawliau oedd i'w caffael. Mae’r pŵer i orfodi cyfyngiadau yn briodol yng nghyd-destun y datblygiad awdurdodedig i gyfyngu ar ddefnydd o dir neu ofod awyr uwchben neu o dan y llinellau trydan uwchben neu’r ceblau dan y ddaear. Mae'r plotiau a’r cyfyngiadau i’w gorfodi wedi’u cadarnhau a’u disgrifio yn y Llyfr Gorchwyl.

9.8 Yn unol â Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, nid ydy darpariaeth enghreifftiol gyffredinol paragraff (2) wedi cael ei chynnwys oherwydd mae darpariaeth debyg wedi’i chynnwys yn lle yn erthygl 37 (Dileu ac atal hawliau preifat).

9.9 Mae paragraff (3) yn darparu nad oes rhaid i’r National Grid, lle mae dim ond angen caffael hawliau dros dir neu orfodi cyfyngiad ar y tir hwnnw sydd arno, gaffael rhagor o fuddiant o gwbl yn y tir hwnnw.

9.10 Mae paragraff (4) ac Atodlen 9 yn gorfodi addasiadau i’r darpariaethau iawndal a phrynu gorfodol o dan ddeddfwriaeth gyffredinol, fel y diweddarwyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i iawndal, ond yn gyffredinol maent yn sicrhau bod y

weithdrefn iawndal yn berthnasol i'r categorïau caffael ychwanegol a ddaw o dan y Gorchymyn – creu hawliau newydd a gorfodi cyfyngiadau yn arbennig. Mae hyn yn ganlyniad i ymestyn y pwerau caffael tir i'r categorïau hyn (a wneir i ganiatáu caffael buddiannau tir llai), ac mae'n gyffredin mewn Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd a gorchmynion prynu gorfodol eraill a wneir gan awdurdodau lleol. At ddibenion adran 126(2) y Ddeddf, mae'r darpariaethau iawndal perthnasol ddim ond yn cael eu haddasu i'r graddau sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn berthnasol yn y modd cywir i gaffael hawliau, ac nid i effeithio ar faint o iawndal byddai gan dirfeddianwyr hawl iddo.

9.11 Nid ydy'r ddarpariaeth enghreifftiol gyffredinol paragraff (4) wedi cael ei chynnwys oherwydd mae darpariaeth debyg wedi cael ei gwneud yn lle yn erthygl 37 (Dileu ac atal hawliau preifat).

9.12 Mae paragraffau (5) a (6) yn darparu y caiff y National Grid, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, drosglwyddo ei bwerau i gaffael hawliau neu orfodi cyfyngiadau i ymgymerwyr statudol os oes angen dargyfeirio, newid neu ddiogelu cyfarpar ar dir y Gorchymyn. Mantais hyn ydy y byddai'n osgoi oedi ac ansicrwydd posibl drwy ymgymerwyr statudol yn gorfod arfer eu pwerau eu hunain. Byddai hynny'n ddiangen oherwydd byddai'r cam a fyddai'n cael ei gymryd yn ddim gwahanol pe bai'r pwerau wedi'u creu yn y Gorchymyn hwn.

9.13 Mae paragraff (7) yn union yr un fath â'r hyn sydd yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017 ac mae'n egluro nad ydy'r erthygl hon yn awdurdodi caffael hawliau dros y Goron na gorfodi cyfyngiadau sy'n effeithio ar fuddiant sy'n cael ei ddal gan y Goron neu ar ei rhan.

*Erthygl 24 (Caffael isbridd neu ofod awyr yn unig)*

9.14 Mae'r erthygl hon yn caniatáu i'r National Grid gaffael tir o dan lefel y ddaear neu ofod awyr uwchben lefel y ddaear, yn hytrach na gorfod caffael y tir cyfan. Mae'r erthygl yn debyg i'r ddarpariaeth enghreifftiol gyffredinol (erthygl 24) heblaw ei bod wedi cael ei hymestyn i gynnwys gofod awyr yn ogystal ag isbridd, ac mae'n union yr un fath â'r pŵer sydd yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017 (erthygl 26).

9.15 Mae caffael buddiannau mewn gofod awyr neu hawliau drosto yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun llinellau trydan uwchben, ac wrth gwrs mae isbridd yn berthnasol yng nghyd-destun elfen danddaearol arfaethedig y datblygiad awdurdodedig.

9.16 Mae erthygl 28 Gorchymyn (Prosiect Atgyfnerthu Gogledd Llundain) y National Grid) 2014 ac erthygl 30 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 yn cynnwys darpariaethau tebyg ar gyfer gofod awyr ac isbridd yn y drefn honno.

*Erthygl 25 (Caffael tir yn gyfyngedig i isbridd sydd fwy na 9 metr o dan yr wyneb)*

9.17 Mae erthygl 25 yn seiliedig ar erthygl 25 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol ac yn dilyn erthygl 31 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014, gyda dau eithriad. Yn gyntaf, mae'r erthygl ddrafft yn ymestyn y pŵer i gynnwys caffael hawliau fel sy'n atodol i'r datblygiad awdurdodedig neu'n ofynnol i'w hwyluso. Yn ail, ystyr isbridd at ddibenion yr erthygl hon ydy isbridd ac unrhyw graig neu sylwedd sy'n gorwedd fwy na 9 metr o dan wyneb y tir.

9.18 Byddai'r erthygl yn rhoi hawl i'r ymgymerwr gaffael hyn a hyn o'r isbridd sy'n gorwedd fwy na 9 metr dan wyneb y tir a restrir yn Atodlen 10, neu gaffael hawliau ynddo, a hynny'n hytrach na chaffael y tir cyfan (ond mewn rhai lleoedd, fel y nodir yn y Cynlluniau Tir, bydd angen am hawliau wyneb hefyd efallai). Mae hyn yn berthnasol mewn cysylltiad â'r prif dwnnel rhwng dau brif dŷ twnnel, lle cynigir ceisio haen isbridd yn unig. Mae'r National Grid yn credu bod ardal amddiffynnol barhaus o gwmpas y twnnel yn angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer bolltau craig a growtio fel nad oes dim o'r gwaith adeiladu yn ymestyn y tu allan i'r terfynau gwyro. Bydd y tir gofynnol yn ddim mwy na thrawstoriad 25m wrth 25m. Ceir rhagor o fanylion yn y Datganiad o Resymau. Credir bod hyn yn gymesur i natur a graddfa'r prif dwnnel ar ôl iddo gael ei adeiladu. Mae Deddf Tai a Chynllunio 2016 yn awdurdodi gorchymyn prynu gorfodol i eithrio tir sydd fwy na 9 metr o dan yr wyneb ac, felly, mae'r National Grid yn ystyried 9 metr yn ddyfnder priodol at ddibenion y Gorchymyn hwn.

9.19 Ar ben hynny, mae'r erthygl yn cadarnhau na fyddai'n rhaid i'r ymgymerwr, wrth gymryd buddiant o'r fath mewn isbridd, gaffael buddiant mewn unrhyw ran arall o'r tir hwnnw. Mae hyn yn ofynnol oherwydd fel arall byddai'n rhaid i'r ymgymerwr gymryd y buddiant cyfan yn y tir gofynnol, a fyddai'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol at ddibenion y datblygiad awdurdodedig.

9.20 Mae'r National Grid yn ystyried yr erthygl hon yn un angenrheidiol er mwyn galluogi datblygiad y datblygiad awdurdodedig oherwydd, yn wahanol i Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, mae'r gwaith twnelu sy'n rhan o'r datblygiad awdurdodedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r National Grid wahaniaethu rhwng yr isbridd dwfn a'r tir arall y mae arno angen hawliau ynddo.

*Erthygl 26 (National Grid yn defnyddio tir dros dro)*

9.21 Mae'r erthygl hon, sy'n berthnasol i'r National Grid yn unig, yn dilyn egwyddor darpariaeth enghreifftiol gyffredinol 28 ac yn caniatáu i'r tir a nodir yn Atodlen 11 gael ei feddiannu dros dro gan y National Grid

mewn cysylltiad â chyflenwi'r datblygiad awdurdodedig (erthygl 26(1)(a)(i)).

9.22 Mae erthygl 28 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol wedi cael ei haddasu i ganiatáu i'r National Grid feddiannu, dros dro, unrhyw dir arall y Gorchymyn a allai fod yn ddarostyngedig i gaffael gorfodol ar dir neu hawliau ond nad ydy'r National Grid wedi cyflwyno hysbysiad o fynediad yn ei gylch eto, nac wedi gwneud datganiad breinio cyffredinol (erthygl 26(1)(a)(ii)).

9.23 Mae'r ddarpariaeth hon wedi ymddangos mewn gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992[a] ac mae geiriad yr erthygl hon yn debyg iawn i'r geiriad yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 29). Mae'n caniatáu i'r National Grid feddiannu tir er mwyn adeiladu'r datblygiad awdurdodedig heb orfod caffael y tir neu hawl dros y tir yn barhaol. Ar ôl ei adeiladu gellir caffael y tir hwnnw, neu hawliau arno, yn orfodol. Mae hyn yn golygu y bydd y National Grid yn gallu caffael, yn orfodol, hawliau i gadw, gweithredu a chynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig dros ardal o dir sy'n cyfateb i ôl troed terfynol y datblygiad awdurdodedig. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r National Grid ac, o ran y tirfeddiannwr, mae'n lleihau'r ardal o dir y bydd angen amdani ar gyfer caffael gorfodol ar dir neu hawliau, a fydd yn cael llai o effaith ar y tirfeddiannwr. Mae diwygiad canlyniadol i baragraff (3) er mwyn cyfeirio at y ddau wahanol gategori o dir a grybwyllir ym mharagraffau (1)(a)(i) ac (1)(a)(ii).

9.24 Mae paragraff 1(b) wedi ymestyn y ddarpariaeth enghreifftiol i ganiatáu i'r National Grid dynnu offer neu unrhyw beth arall o'r tir. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i eiriad Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 ond mae'n angenrheidiol i roi'r hyblygrwydd priodol i'r National Grid wrth iddo ddefnyddio tir dros dro, ac ystyrir ei fod yn gymesur yng nghyd-destun y datblygiad awdurdodedig.

9.25 Mae paragraff 1(d) wedi cael ei ychwanegu hefyd, er mwyn caniatáu i waith penodol gael ei adeiladu ar y tir a restrir yn Atodlen 11.

9.26 Mae paragraff (2) yn mynnu bod y National Grid yn rhoi 14 diwrnod o rybudd i dirfeddianwyr cyn mynd ar eu tir a'i feddiannu dros dro. Credir bod y cyfnod hwn yn angenrheidiol, yn briodol ac yn gymesur ac ystyried bod angen i'r National Grid adeiladu'r datblygiad awdurdodedig erbyn y dyddiad cysylltu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd.

9.27 Mae paragraff (4) yn darparu bod yn rhaid i'r National Grid roi rhybudd ysgrifenedig i'r tirfeddiannwr ynghylch dyddiad cwblhau'r gwaith y

---

[a] Er enghraifft, Gorchymyn System Nottingham Express Transit 2009 (O.S. 2009/1300) (erthygl 36(1)(a)(ii)).

cymerwyd meddiant dros dro ar ei gyfer, a hynny o leiaf 28 diwrnod cyn cwblhau'r gwaith.

9.28 Oni chytunir yn wahanol â'r tirfeddianwyr, mae paragraff (5) yn darparu bod yn rhaid i'r National Grid, cyn ildio meddiant dros dro ar dir a restrir yn Atodlen 11, dynnu'r holl waith dros dro ac adfer y tir heblaw am yr eithriadau a restrir yn is-baragraffau (a) i (h), sydd wedi cael eu diwygio i ganiatáu gwaith lliniaru a gwaith arall (fel peilonau) i gael ei adeiladu a'i adael ar y tir, heb ofyniad i dynnu'r rhain. Byddai hyn yn berthnasol, er enghraifft, lle mae mesurau lliniaru wedi'u darparu ond nad oes rhaid i'r National Grid gadw buddiant parhaol yn y tir. Mae cynsail i hyn yng Ngorchymyn (Nuneaton North Chord) Network Rail 2010[a]. Byddai'r ddarpariaeth yn caniatáu i'r National Grid adael sylfeini (mwy na 1.5 metr o dan y ddaear) ar gyfer y peilonau sydd wedi'u tynnu yn eu lle. Y rheswm am hyn ydy bod tynnu sylfeini sy'n is na 1.5 metr yn cael ei ystyried, ar ôl pwyso a mesur, yn ddiangen wrth gymharu manteision gwaith tynnu o'r fath â'r effeithiau posibl. Yn benodol, ystyrir ei fod yn ddyfnder digonol i sicrhau defnydd diogel o'r tir dan sylw yn y dyfodol.

9.29 Mae paragraff (6) yn debyg i baragraff (5) ond mae'n ymwneud â thir nad ydy wedi'i restru yn yr Atodlen, ac yn darparu ar gyfer achosion lle mae meddiant dros dro wedi cael ei gymryd o dir a allai fod yn destun caffael gorfodol, ond nad ydy'r National Grid wedi cyhoeddi hysbysiad mynediad nac wedi gwneud datganiad breinio cyffredinol yn ei gylch eto. Mewn achosion o'r fath, bydd y National Grid un ai'n caffael y tir neu hawl ar y tir, neu'n tynnu'r gwaith dros dro. Mae paragraff (6) yn adlewyrchu erthygl 29(6) Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, heblaw bod y Gorchymyn yn ymgorffori tri eithriad ychwanegol at y gofyniad i dynnu'r gwaith dros dro. O dan yr eithriadau hyn, nid oes rhaid i'r National Grid dynnu unrhyw waith sy'n cryfhau'r ddaear, na thynnu neu ail-leoli unrhyw gyfarpar sy'n berchen i ymgymerwyr statudol, na thynnu unrhyw waith draenio. Pwrpas hyn ydy sicrhau nad oes gofyniad, wrth ddychwelyd y tir a feddiannwyd dros dro, i 'ddadwneud' gwaith sydd wedi cael ei wneud i hwyluso'r datblygiad awdurdodedig. Am yr un rhesymau â pharagraff (5), mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r National Grid adael sylfeini (mwy na 1.5 metr o dan y ddaear) ar gyfer y peilonau sydd wedi'u tynnu yn eu lle. Mae'r ddau eithriad cyntaf o'r tri eithriad hyn wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 (erthygl 35).

9.30 Mae paragraff (9) yn diwygio'r darpariaethau enghreifftiol cyffredinol i'w gwneud yn glir bod iawndal sy'n daladwy o dan yr erthygl hon yn iawndal sy'n daladwy ar gyfer effaith niweidiol, a fyddai'n codi o dan adran 10 Deddf Prynu Gorfodol 1965 fel arfer. Ond, yn rhinwedd adran 125(3)(b) y Ddeddf, mae'n daladwy o dan adran 152 y Ddeddf yn lle.

---

[a] O.S. 2010/1721

9.31 O dan baragraff (10), nid oes rhaid i'r National Grid gaffael y tir a restrir yn Atodlen 11 nac unrhyw fuddiant yn y tir hwnnw, ond nid ydy'r ddarpariaeth hon yn atal hawliau ar dir, isbridd neu ofod awyr rhag cael eu caffael. Mae'r ddarpariaeth enghreifftiol hon wedi cael ei diwygio i ganiatáu gorfodi cyfyngiadau ar dir Atodlen 11 a chaniatáu caffael gofod awyr.

9.32 Mae paragraff (12) yn ei gwneud yn glir bod y pŵer yn yr erthygl hon yn gallu cael ei arfer fwy nag unwaith. Bwriad y newid hwn ydy egluro'r bwriad sy'n sail i'r ddarpariaeth enghreifftiol, yn hytrach nag ehangu ei chwmpas.

*Erthygl 27 (SP Manweb yn defnyddio tir dros dro)*

9.33 Mae'r erthygl hon yn debyg i erthygl 26 (National Grid yn defnyddio tir dros dro) ac yn darparu y caiff SP Manweb, mewn cysylltiad â chyflawni Gwaith SP Manweb (yn unig) gymryd meddiant dros dro o dir y Gorchymyn a nodir yn Atodlen 11. Mae hyd a lled y ddarpariaeth hon yn fwy cyfyngedig nag erthygl 26 gan mai dim ond i Waith SP Manweb y mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol.

9.34 Nid ydy'r gallu i adael y gwaith hwnnw a restrir yn erthygl 26(5)(e)-(h) yn ei le wedi cael ei ddyblygu ym mhŵer SP Manweb oherwydd nid ydy'r gwaith yn rhan o Waith SP Manweb.

9.35 Mae erthygl 27(12) yn cynnwys geiriad ychwanegol i sicrhau nad ydy'r National Grid yn cael ei rwystro rhag cymryd meddiant dros dro fwy nag unwaith mewn cysylltiad ag unrhyw dir a nodir yn erthygl 26(1)(a). Mae hyn wedi'i gynnwys i egluro y caiff y National Grid gymryd meddiant dros dro o dir y mae SP Manweb wedi cymryd meddiant dros dro ohono'n flaenorol, ac mae'n angenrheidiol i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflenwi.

*Erthygl 28 (Defnyddio tir dros dro i gynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig)*

9.36 Mae'r erthygl hon yn darparu ar gyfer mynediad at dir o fewn terfynau'r Gorchymyn (heblaw am dai, gerddi ac unrhyw adeilad arall sy'n feddianedig ar yr adeg honno) a chymryd meddiant dros dro ohono fel sy'n rhesymol ofynnol i gynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig. Rhaid rhoi o leiaf 28 diwrnod o rybudd (ac eithrio mewn argyfwng) a rhaid talu iawndal am unrhyw golled neu ddifrod.

9.37 Mae'r erthygl yn dilyn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol heblaw bod paragraff (1)(c) yn ymestyn y darpariaethau enghreifftiol i gynnwys hawl i fynd ar y tir at ddibenion cael mynediad er mwyn cynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig (sy'n ategu'r pwerau cynnal a chadw a nodir ym mharagraff (1)(a)). Ar ben hynny, mae darpariaeth sy'n tynnu'r angen am 28 diwrnod o rybudd mewn sefyllfaoedd o argyfwng

wedi cael ei hychwanegu at baragraff (11), sy’n adlewyrchu’r geiriad yng Ngorchymyn Newid Piblinell Nwy’r Afon Humber 2016[a].

9.38 Mae erthygl 28(12) yn gwahaniaethu rhwng ‘cyfnod cynnal a chadw’ ar gyfer cynnal a chadw’r datblygiad awdurdodedig (pum mlynedd yn dechrau ar y dyddiad y mae’r rhan honno o'r datblygiad awdurdodedig yn dechrau cael ei defnyddio’n weithredol) a ‘chyfnod cynnal a chadw’ ar gyfer newid neu blannu tirwedd (pum mlynedd yn dechrau ar y dyddiad y mae’r rhan honno o’r gwaith newid neu’r plannu tirwedd yn cael ei chwblhau’n gyntaf).

9.39 Mae geiriad tebyg yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 31), a’r prif wahaniaeth ydy bod erthygl 28(11) yn cynnwys y gofynion o ran rhoi rhybudd mewn argyfwng yr esbonnir uchod.

9.40 Mae'r ddarpariaeth hon yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall y National Grid gael mynediad at y datblygiad awdurdodedig at ddibenion cynnal a chadw, sy’n angenrheidiol ac yn gymesur ym marn y National Grid.

*Erthygl 29 (Defnyddio isbridd o dan strydoedd neu ofod awyr uwchben strydoedd)*

9.41 Mae’r erthygl hon, sy’n adlewyrchu erthygl 27 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol yn agos (heblaw am gynnwys cyfeiriad at ddibenion sy’n atodol i’r datblygiad awdurdodedig), yn darparu y caiff y National Grid ddefnyddio strydoedd o fewn terfynau'r Gorchymyn ar gyfer y datblygiad awdurdodedig heb orfod caffael unrhyw ran o’r stryd neu unrhyw hawddfraint neu hawl ar y stryd). Gwneir darpariaeth ar gyfer y math o iawndal i unigolion sy’n dioddef colledion o ganlyniad i arfer y pŵer hwn.

9.42 Mae'r math hwn o ddarpariaeth yng Ngorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 (erthygl 48) hefyd.

*Iawndal*

*Erthygl 30 (Diystyru rhai buddiannau a gwelliannau)*

9.43 Nid yw’r erthygl hon wedi’i chynnwys yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, ond mae’n dilyn erthygl 26 Darpariaethau Enghreifftiol Gorchymyn y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, ac mae’n dyblygu erthygl 37 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014.

9.44 Mae’n darparu ar gyfer diystyru rhai buddiannau yn y tir a gwelliannau i'w werth at ddibenion asesu iawndal mewn cysylltiad â’i gaffael yn

---

[a] O.S. 2016/853.

orfodol, lle nad oedd creu'r buddiant na gwneud y gwelliant yn rhesymol angenrheidiol, ac yr oedd wedi'i ddylunio gyda'r nod o gael iawndal neu ragor o iawndal.

9.45 Mae'n cydymffurfio ag adran 126 (iawndal am gaffael gorfodol) y Ddeddf. Mae hyn oherwydd nad yw'n golygu addasu nac eithrio cymhwyso darpariaeth bresennol sy'n ymwneud ag iawndal prynu gorfodol.

9.46 Mae geiriad yr erthygl hon yn adlewyrchu rhan helaeth o eiriad adran 4 (asesu iawndal) Deddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981"). Mae'n angenrheidiol er mwyn cymhwyso effaith adran 4 at y Gorchymyn drafft yn benodol. Y rheswm am hyn ydy bod Deddf 1981 dim ond yn berthnasol i bryniant gorfodol y mae unrhyw offeryn statudol arall wedi cymhwyso ei ddarpariaethau ato (Adran 1 (*Cymhwyso'r Ddeddf*)), ac nid ydy'r Ddeddf na'r darpariaethau enghreifftiol cyffredinol yn cymhwyso Adran 1 Deddf 1981 at y Gorchymyn drafft. Mae adran 120(3) a 120(5)(a) ac eitem 36 Rhan 1 o Atodlen 5 yn caniatáu cymhwyso, mewn Gorchymyn, darpariaethau statudol sy'n ymwneud â thalu iawndal.

*Erthygl 31 (Gwrth-gyfrif ar gyfer cynnydd mewn werth tir a gedwir)*

9.47 Nid yw'r erthygl hon wedi'i chynnwys yn Narpariaethau Enghreifftiol y DCO. Ond mae'n dilyn erthygl 27 Darpariaethau Enghreifftiol Gorchymyn y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, ac mae'n dyblygu erthygl 38 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014.

9.48 Mae'n darparu y bydd yr Uwch Dribiwnlys yn gwrth-gyfrif unrhyw gynnydd mewn gwerth unrhyw dir cyffiniol neu gyfagos sy'n eiddo i'r unigolyn hwnnw, sy'n deillio o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig, yn erbyn gwerth y tir, wrth asesu'r iawndal sy'n ddyledus i unrhyw un yng nghyswllt caffael unrhyw dir.

9.49 Bydd yr Uwch Dribiwnlys yn gwrth-gyfrif unrhyw gynnydd yng ngwerth y tir y mae'r hawliau newydd wedi cael eu caffael ar ei gyfer ac unrhyw gynnydd mewn gwerth tir cyffiniol neu gyfagos sy'n eiddo i'r unigolyn hwnnw, sy'n deillio o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig, yn erbyn gwerth y tir, wrth asesu'r iawndal sy'n ddyledus i unrhyw un yng nghyswllt caffael hawliau newydd dros dir.

9.50 Mae'n cydymffurfio ag Adran 126(2) y Ddeddf. Mae hyn oherwydd nad yw'n golygu addasu sut y cymhwysir darpariaeth bresennol sy'n ymwneud ag iawndal prynu gorfodol.

9.51 Pennir yr egwyddor yn yr erthygl hon yn adran 7 o Ddeddf Iawndal Tir 1961 *(effaith datblygiad penodol gwirioneddol neu ddarpar ddatblygiad tir cyfagos yn yr un berchnogaeth)*. Mae angen defnyddio'r egwyddor hon.

9.52 Mae Adrannau 120(3) a 5(a) ac eitem 36 o Ran 1, Atodlen 5 i Ddeddf 2008 yn caniatáu cymhwyso darpariaethau statudol sy'n berthnasol i dalu iawndal mewn Gorchymyn.

*Atodol*

*Erthygl 32 (Caffael gorfodol ar dir - cynnwys y cod mwynau)*

9.53 Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol (ac mae'n cynnwys mân ychwanegiadau, fel oedd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Piblinell Traws Gwlad CCS Swydd Efrog a Humber y National Grid (erthygl 39)).

9.54 Mae'n cynnwys Rhannau 2 a 3 o Atodlen 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (gydag addasiadau) yn hytrach na dim ond Rhan 2. Mae Rhan 3 yn cynnwys y drefn ar gyfer y perchennog sy'n dymuno gweithio'r cloddfeydd neu'r mwynau. Drwy gynnwys dwy ran yr Atodlen a enwir, mae'r erthygl hon yn eithrio hawliau presennol mewn mwynau rhag cwmpas y caffael gorfodol ac yn delio â sefyllfa lle mae perchennog y cloddfeydd neu'r mwynau'n dymuno eu gweithio. Mae hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i natur y rhan o dan ddaear o'r datblygiad awdurdodedig.

9.55 Mae addasiadau i Rannau 2 a 3 o Atodlen 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a oedd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Piblinell Traws Gwlad CCS Swydd Efrog a Humber (drafft) (erthygl 39) yn amnewid y geiriau "ymgymeriad" a "gorchymyn prynu gorfodol" am "ddatblygiad awdurdodedig" a'r "Gorchymyn hwn" yn y drefn honno.

*Erthygl 33 (Terfyn amser ar gyfer arfer awdurdod i gaffael tir yn orfodol)*

9.56 Mae'r erthygl hon yn rhoi wyth mlynedd i'r National Grid gyflwyno 'hysbysiadau i drin' neu 'datganiad breinio cyffredinol' i gaffael y tir sy'n ddarostyngedig i bŵer prynu gorfodol. Dyma'r ddau brif ddull gweithredol ar gyfer ymgymryd â'r broses o gaffael tir pe byddai'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud. Mae'r terfyn amser wedi cael ei ymestyn o'r pum mlynedd a roddir yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol (erthygl 20).

9.57 Mae'r estyniad hwn yn angenrheidiol oherwydd efallai na fydd yn bosibl arfer y pwerau prynu gorfodol cyn pen pum mlynedd i'r DCO. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r 'cysylltiad' rhwng adeiladu/ymestyn yr orsaf bŵer niwclear yn Wylfa a'r cais presennol a fydd yn awdurdodi'r datblygiad angenrheidiol i ddarparu digon o gapasiti trawsyrru trydan i allu cysylltu dulliau trawsyrru trydan ychwanegol i'r grid cenedlaethol. Yn unol â'r contract presennol, bydd yr adweithydd cyntaf yn Wylfa Newydd yn dod yn weithredol yn 2024 a'r ail yn y flwyddyn ddilynol. Ond, mae sawl agwedd ar y trefniadau hyn a all newid. Felly ym marn y National Grid, mae cyfnod o 8 mlynedd yn gymesur ac yn briodol yn yr amgylchiadau hyn.

9.58 Mae Adrannau 154(3) a (4) y Ddeddf a rheoliad 3 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2010[a] yn caniatáu i’r Gorchymyn ragnodi cyfnod hwy na phum mlynedd ar gyfer arfer pwerau o'r fath.

9.59 Mae erthygl 33 yn debyg iawn i ddarpariaethau erthygl 21 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, sy’n nodi’r terfyn amser ar gyfer rhoi hysbysiadau i drin neu ddatganiad breinio cyffredinol fel 24 Ionawr 2024 (sef 8 mlynedd).

9.60 Yn yr amgylchiadau hyn, credir ei bod yn gymesur ac yn synhwyrol cael cyfnod o 8 mlynedd ar gyfer arfer pwerau caffael gorfodol, am y rhesymau a nodir uchod.

9.61 Bydd y terfyn amser yn yr erthygl hon yn cael ei ymestyn flwyddyn, os bydd y Gorchymyn yn cael ei herio’n gyfreithiol. Ceir eglurhad pellach ym mharagraff 10.40 isod.

*Erthygl 34 (Caffael rhan o eiddo penodol)*

9.62 Mae’r erthygl hon, sy’n dilyn darpariaeth enghreifftiol cyffredinol 26, yn galluogi caffael rhan o eiddo, yn hytrach nag eiddo cyfan, sy’n ddarostyngedig i gaffael gorfodol. Mae’n cynnwys gweithdrefn sy’n galluogi’r perchennog perthnasol, mewn amgylchiadau penodol, i fynnu bod y tir cyfan yn cael ei gymryd, gyda Siambr Tir yr Uwch Dribiwnlys yn gwneud penderfyniadau ynghylch anghydfodau. Mae’r erthygl hon yn lle adran 8(1) ac Atodlen 2A o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965.

*Erthygl 35 (Cymhwyso Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981)*

9.63 Mae’r erthygl hon yn darparu ar gyfer cymhwyso Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981, gydag addasiadau, sy’n cynnwys gweithdrefnau breinio ar gyfer tir sy’n destun prynu gorfodol.

9.64 Roedd geiriau cynsail yn ymddangos yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 25). Ond ers hynny, mae rhannau o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 wedi dod i rym, felly rydym wedi diweddaru'r erthygl hon yn unol â hynny. Roedd Deddf 2016 yn diddymu adrannau 3 a 5(1) o Ddeddf 1981, fel nad oes angen hysbysiad rhagarweiniol o fwriad mwyach cyn bydd datganiad breinio cyffredinol yn cael ei gyflawni. Yn hytrach, rhaid cynnwys datganiad penodedig am effaith Rhannau 2 a 3 o Ddeddf 1981 gyda’r hysbysiad cadarnhau o dan adran 15 o Ddeddf 1981, ynghyd â gwahoddiad i unigolyn ddarparu gwybodaeth lle byddai gan yr unigolyn hwnnw yr hawl i hawlio iawndal pe byddai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei wneud. Mae darpariaeth debyg wedi’i chynnwys yn erthygl 22 Gorchymyn drafft CCGT Eggborough (Gorsaf Gynhyrchu).

---

[a] O.S. 2010/105.

9.65 Mae'n bwysig nodi'n glir pa weithdrefnau sydd ar waith yng nghyswllt y datblygiad awdurdodedig yn y Gorchymyn.

*Erthygl 36 (Cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf 1965)*

9.66 Mae'r erthygl hon yn darparu ar gyfer cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965, gydag addasiadau.

9.67 Mae'r addasiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod Deddf 1965 yn gyson â'r derminoleg sydd wedi'i chynnwys yn y Gorchymyn drafft, a'r gweithdrefnau herio y mae'r Gorchymyn drafft yn berthnasol iddynt.

9.68 Mae erthygl 36(3) yn disodli'r terfyn amser ar gyfer arfer pwerau prynu gorfodol yn Neddf 1965 â'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn erthygl 33 y Gorchymyn drafft.

9.69 Mae erthygl 36(4) yn sicrhau nad yw cyfeiriadau at gamfyndediad ar dir a meddiannu tir dros dro o dan Atodlen 2A newydd yn cynnwys camfynediad ar dir a meddiannu tir dros dro o dan y Gorchymyn drafft.

9.70 Er nad yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, mae'r National Grid yn credu ei bod yn briodol ei chynnwys yn y Gorchymyn hwn oherwydd bod y National Grid yn ceisio cael pwerau i gaffael tir yn ogystal â hawliau, a dim ond pwerau i gaffael hawliau yr oedd Richborough wedi ceisio eu cael. Heblaw am fân newidiadau ym mharagraff 2(a) a pharagraff (4) y Gorchymyn, mae'r ddarpariaeth hon yn dilyn Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Tân Nwy Wrecsam 2017 a Gorchymyn drafft CCGT Eggborough (Gorsaf Gynhyrchu).

*Erthygl 37 (Dileu ac atal hawliau preifat)*

9.71 Mae'r erthygl hon wedi ymhelaethu ar y ddarpariaeth enghreifftiol gyffredinol er mwyn bod yn berthnasol i hawliau preifat yn gyffredinol, ac nid dim ond hawliau tramwy.

9.72 Mae'n darparu ar gyfer dileu neu atal hawliau preifat dros dir sy'n destun caffael gorfodol, ac atal hawliau preifat dros dir sy'n ddarostyngedig i gaffael hawliau gorfodol (i'r graddau y byddai parhad yr hawl bresennol yn anghyson â'r hawl sy'n cael ei chaffael neu'n torri cyfyngiad yng nghyswllt defnyddiwr tir sy'n codi yn rhinwedd contract) o ddyddiad caffael y tir neu'r hawliau, neu ddyddiad y camfynediad, pa un bynnag sydd gynharaf.

9.73 Byddai hawliau preifat ar dir sy'n eiddo i'r National Grid yn barod o fewn cyfyngiadau'r Gorchymyn yn cael eu hatal pan fyddai unrhyw weithgaredd a awdurdodir gan y Gorchymyn yn cychwyn, a hynny'n amharu â hawliau o'r fath neu'n torri unrhyw hawliau. Mae hyn yn dilyn y dull a ddefnyddiwyd yn erthygl 17 Gorchymyn (Cyfleuster Adfer

Adnoddau) Rookery South 2011[a]. Mae'n caniatáu i'r National Grid "glirio teitl" ar dir y mae'n berchen arno'n barod.

9.74 Bydd holl hawliau preifat dros dir sy'n cael ei feddiannu dros dro gan y National Grid yn cael eu hatal ac ni fydd modd eu gorfodi tra bydd y tir yn cael ei feddiannu (heblaw am yr hyn y darperir ar ei gyfer yn erthygl 39 isod), i'r graddau y byddai eu parhad yn anghyson ag arfer pwerau o dan y Gorchymyn.

9.75 Mae'r erthygl yn gwneud darpariaethau yng nghyswllt talu iawndal. Mae arbediad ar gyfer ymgymerwyr statudol. Diffinnir hawliau preifat yn erthygl 37(9). Mae hyn yn adeiladu ar y diffiniad o hawliau a geir yn erthygl 21(2) y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol ac mae'n cynnwys y diffiniad ehangach a ddefnyddir yn erthygl 18(3) Gorchymyn (Cyfleuster Adfer Adnoddau) Rookery South 2011.

9.76 Mae geiriau'r erthygl hon yn debyg iawn i'r geiriau yn erthygl 23 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, ac eithrio paragraff (1) sy'n cyfeirio at atal, (4) sydd hefyd yn cynnwys geiriau i nodi'n glir mai dim ond cyn belled ag y mae'r hawliau'n anghyson â darpariaethau'r gorchymyn sy'n cael eu cyflawni y mae'r atal, a (9) sy'n cynnwys cyfyngiadau ar gyfer defnyddiwr y tir sy'n deillio yn rhinwedd contract.

9.77 Y rhesymeg dros gynnwys yr erthygl hon oedd yr angen i'r National Grid allu llunio'r datblygiad awdurdodedig yn brydlon, heb i unrhyw un sy'n arfer hawliau preifat i ymyrryd, a fyddai'n gwrthdaro ag anghenion cyflawni'r prosiect.

*Erthygl 38 (pŵer i ddiystyru hawddfreintiau a hawliau eraill)*

9.78 Nid yw hyn yn deillio o'r darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, ond mae'n seiliedig ar erthygl 32 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014, gyda mân newidiadau ym mharagraff 3 er mwyn adlewyrchu'n well y math o fuddiannau sy'n effeithio ar dir y mae'r National Grid yn disgwyl eu gweld. Mae'n defnyddio'r pwerau yn adran 203 o Ddeddf 2016 (Deddf a ddiddymodd ac a ddisodlodd adran 237 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - gweler adran 206 ac atodlen 19, paragraff 9 o Ddeddf 2016).

9.79 Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn osgoi'r anhawster sydd ynghlwm wrth gymhwyso erthygl 18 (caffael gorfodol ar dir) y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, o ran nad yw dileu hawliau yn digwydd yn awtomatig wrth gaffael, a dim ond yr hawliau hynny sy'n llesteirio'r datblygiad awdurdodedig fydd yn cael eu diystyru. Mae hynny'n osgoi dileu hawliau, y mae modd i'r datblygiad awdurdodedig barhau i'w defnyddio, ac mae hynny'n cyfateb i arbedion posibl o ran iawndal.

---

[a] O.S. 2013/680.

9.80 Mae adrannau 120(3) a (4) ac eitem 2 Rhan 1, Atodlen 5 y Ddeddf yn cadarnhau bod modd i'r Gorchymyn wneud darpariaeth o'r fath sy'n ymwneud ag atal, dileu neu ymyrryd yn orfodol â buddiannau neu mewn unrhyw dir neu hawliau dros unrhyw dir.

9.81 Hefyd, mae'r erthygl hon yn atodol (o dan adran 120(5)(d) y Ddeddf) i erthyglau 22 (caffael gorfodol ar dir) a 23 (caffael gorfodol ar hawliau) y Gorchymyn, ac mae'n angenrheidiol ac yn fuddiol i weithredu'n llawn y cydsyniad datblygu yn erthygl 3 y Gorchymyn (fel sy'n cael ei ganiatáu gan adran 120(5)(c) y Ddeddf).

9.82 Mae paragraffau (1)(a) a (b) yn seiliedig ar adran 203(1) Deddf 2016, heblaw bod y buddiannau a'r hawliau y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn hefyd yn cynnwys ymddiriedolaethau, nodweddion a ffyrdd-freintiau. Mae'r hawliau ychwanegol hyn wedi'u cynnwys er mwyn adlewyrchu'r mathau o fuddiannau a hawliau y gall y National Grid ddod ar eu traws ar gynllun llinellol o'r natur hwn.

9.83 Mae'r diffiniad o "weithgaredd a awdurdodir" ym mharagraff (2) yn adlewyrchu'n rhannol y rhestr o weithgareddau yn adran 203(1) o Ddeddf 2016 (gweler adran flaenorol 237(1A) o Ddeddf 1990).

9.84 Mae paragraff (c) erthygl 38(2) yn egluro bod "defnyddio unrhyw dir" yn cynnwys "defnyddio tir dros dro". Mae hyn yn golygu bod y pwerau o dan erthyglau 26 (National Grid yn defnyddio tir dros dro, 27 (SP Manweb yn defnyddio tir dros dro)) a 28 (defnyddio tir dros dro i gynnal datblygiad awdurdodedig) y Gorchymyn yn cael eu gweithredu'n llawn, heb i fuddiannau, ac ati, hawliau na chyfyngiadau a ddisgrifir ym mharagraff (1) erthygl 38 gyfyngu ar hynny.

9.85 Mae erthygl 38(3) yn seiliedig ar y diffiniad o "hawl neu fuddiant perthnasol" yn adran 205(1) o Ddeddf 2016 (gweler adran flaenorol 237(2) o Ddeddf 1990). Mae'n debyg i erthygl 32(3) Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014, ond ei bod hefyd yn berthnasol i ymddiriedolaethau, nodweddion a ffyrdd-freintiau a gall gynnwys unrhyw dir sy'n rhan o gomin, man agored neu randiroedd gardd gae neu danwydd. Mae'r ychwanegiad hwn yn adlewyrchu'n well y mathau o hawliau, buddiannau a thir y gall y National Grid ddod ar eu traws gyda'r cynllun llinellol.

9.86 Nid oes unrhyw ddrafftio wedi'i gynnwys i adlewyrchu adran 203(9) o Ddeddf 2016 oherwydd gall fod angen diwygio cyfarpar yr ymgymerwyr statudol gan ddefnyddio pwerau'r Gorchymyn ac mae darpariaeth ar gyfer y cysylltiad rhwng yr ymgymerwr a'r ymgymerwyr statudol yn y darpariaethau gwarchod yn Atodlen 15 (darpariaethau gwarchod) y Gorchymyn.

9.87 Mae erthygl 38(4) wedi'i chynnwys er mwyn egluro'r weithdrefn a'r amseru ar gyfer asesu iawndal drwy gyfeirio at adran 204(3) o Ddeddf 2016.

9.88 Mae erthygl 38(5) yn darparu ar gyfer iawndal sy'n seiliedig ar adran 204(3) o Ddeddf 2016 (gweler adran flaenorol 237(4) o Ddeddf 1990). Mae'n cadarnhau, os oes gan yr ymgymerwr dir wedi'i gaffael, a bod gofyn i unigolyn sy'n cael teitl gan yr ymgymerwr hwnnw dalu iawndal, ond nad yw'r unigolyn yn ei dalu, yna'r ymgymerwr sy'n ysgwyddo'r atebolrwydd hwnnw.

9.89 Mae adran 204(4) o Ddeddf 2016 yn diffinio'r awdurdod penodol neu gymhwysol y gellir gorfodi'r atebolrwydd i dalu iawndal arno fel yr awdurdod yr oedd y tir yr oedd yr iawndal yn berthnasol iddo yn perthyn iddo, neu y cafodd y tir ei gaffael neu ei berchnogi ganddo. Ni all yr ymgymerwr "berchnogi" tir fel hyn oherwydd nad yw'n awdurdod lleol. Felly, ni cheir unrhyw gyfeiriad yn y paragraff hwn at "berchnogi", gan addasu'r ffordd y caiff darpariaeth iawndal ei chymhwyso yn adran 203(3) i'r graddau y mae angen cymhwyso hyn i'r gorchymyn, fel y caniateir o dan adran 125(6) y Ddeddf.

*Erthygl 39 (Awdurdod statudol i ddiystyru hawddfreintiau a hawliau eraill)*

9.90 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r erthygl hon yn darparu, yn rhinwedd adran 158 y Ddeddf, y gall y National Grid ymyrryd ag unrhyw hawddfraint, rhyddid, braint, hawl neu fantais sydd wedi'u hatodi â thir ac sy'n effeithio ar dir arall, gan gynnwys unrhyw hawliau cymorth naturiol, neu dorri unrhyw gyfyngiad ar ddefnyddiwr tir sy'n deillio yn rhinwedd contract, wrth gyflawni neu ddefnyddio'r datblygiad a awdurdodir gan y Gorchymyn ac wrth wneud unrhyw beth arall a awdurdodir gan y Gorchymyn.

9.91 Mae hefyd yn darparu y bydd iawndal yn daladwy o dan adran 10 Deddf Prynu Gorfodol 1965, yn rhinwedd adran 152 y Ddeddf, ar gyfer unrhyw ymyrryd neu dorri o'r fath.

9.92 Nid yw hon yn ddarpariaeth enghreifftiol, ond mae wedi'i chynnwys er mwyn egluro'r sefyllfa o ran hawliau sy'n faich ar dir sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygiad awdurdodedig. Mae geiriau tebyg yn ymddangos yng Ngorchymyn (Gorsaf Gynhyrchu Niwclear) Hinkley Point C 2013 (Erthygl 25). Dim ond erthygl 39(3) sy'n gwyro o'r geiriau hyn, sy'n cymhwyso'r erthygl i unrhyw ymddiriedaeth, nodwedd neu ffordd-fraint sy'n ffurfio rhan o gomin, man agored neu randir gardd gae neu danwydd, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau sy'n deillio ar gyfer defnyddiwr tir yn rhinwedd contract. Mae hyn yn angenrheidiol ac yn briodol er mwyn rhoi sylw i'r mathau o fuddiant/tir y gall y National Grid ddod ar eu traws ar gynllun llinellol o'r natur hwn.

*Erthygl 40 (Dileu hawliau preifat a chyfamodau caeth sy'n ymwneud â chyfarpar sy'n perthyn i'r National Grid neu SP Manweb yn cael eu symud oddi ar dir yn ddarostyngedig i feddiannu dros dro)*

9.93 Mae'r holl hawliau preifat dros dir sy'n cael ei feddiannu dros dro gan y National Grid neu SP Manweb yn cael eu hatal ac nid oes modd eu

gorfodi dros gyfnod y meddiannu, cyn belled ag y mae hynny'n anghyson ag arfer pwerau'r Gorchymyn. Caiff hawliau yng nghyswllt cyfarpar sy'n cael ei symud oddi ar dir eu dileu pan na fydd y National Grid nac SP Manweb yn parhau i feddiannu'r tir yn gyfreithlon. Nid yw'r erthygl hon yn ddarpariaeth enghreifftiol, ond mae yn union yr un fath ag erthygl 24 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

9.94 Mae paragraff (3) yn darparu nad yw dileu unrhyw hawl yn peri sail achos sy'n ymwneud ag unrhyw seiliau ac eithrio'r rheini sy'n gorwedd lai nag 1.5 metr o dan y ddaear. Er mai'r bwriad yw symud cyfarpar oddi ar y tir, bydd y seiliau (is na 1.5 metr o dan y ddaear) yn cael eu gadael. Bwriad y paragraff hwn yw cadarnhau na fydd gadael y seiliau yn y ddaear yn arwain at sail achos o dresmasu yng nghyswllt y seiliau unwaith y byddai'r hawl i adael y seiliau yn y tir yn cael ei dileu.

9.95 Mae paragraff newydd (4) wedi'i gynnwys, yn unol â'r dull yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017, er mwyn gweithredu Atodlen 12 yn bendant (dileu hawliau preifat a chyfamodau caeth sy'n ymwneud â chyfarpar sy'n perthyn i'r National Grid neu SP Manweb sydd wedi cael eu symud oddi ar y tir yn amodol ar feddiannu dros dro).

*Erthygl 41 (Hawliau'r Goron)*

9.96 Mae'r erthygl hon yn darparu nad yw'r Gorchymyn yn rhagfarnu unrhyw stad, hawl, pŵer, braint, awdurdod nac eithriad o'r Goron, ac nid yw'n awdurdodi'r ymgymerwr i gymryd nac ymyrryd ag unrhyw dir na hawliau sy'n eiddo i'r Goron nac adran o'r llywodraeth heb gael caniatâd ysgrifenedig. Mae modd rhoi caniatâd yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau.

9.97 Nid yw'r erthygl hon yn ddarpariaeth enghreifftiol, ond mae darpariaeth yr un fath wedi'i chynnwys yn erthygl 32 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, ac ystyrir ei bod yn briodol cynnwys yr erthygl hon er mwyn eglurder.

*Erthygl 43 (Tir Categori Arbennig)*

9.98 Mae erthygl 42 yn ei gwneud yn ofynnol i ryddhau hawliau a beichiau dros unrhyw dir categori arbennig (sef tir sy'n rhan o gomin, man agored neu randir cae neu danwydd) cyn belled ag y byddai hynny'n gyson ag arfer hawliau'r Gorchymyn. Mae darpariaeth debyg wedi'i chynnwys yn erthygl 31, Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017.

*Erthygl 43 (Ymgymerwyr statudol)*

9.99 Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar erthygl 31 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Mae'n awdurdodi'r ymgymerwyr i (1) caffael tir sy'n eiddo i ymgymerwyr statudol, fel y disgrifir yn y llyfr gorchwyl, yn orfodol, (2)

dileu hawliau ymgymerwyr statudol, yn ogystal â symud neu ail-leoli cyfarpar sy'n eiddo i ymgymerwyr statudol, a (3) cael gafael ar hawliau newydd yn orfodol dros dir newydd sy'n eiddo i'r ymgymerwyr statudol a ddisgrifir yn y llyfr gorchwyl.

9.100 Mae'n wahanol i'r darpariaethau enghreifftiol cyffredinol ym mharagraffau (2) i (5), sydd oll yn berthnasol i naill ai'r pŵer ym mharagraff (1)(b) (dileu hawliau neu symud neu ail-leoli cyfarpar sy'n eiddo i ymgymerwyr statudol) neu arallgyfeirio cyfarpar arall. Mae paragraffau (3) a (4) yn caniatáu ar gyfer y broses hysbysu a nodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (adrannau 271-274) i fod yn berthnasol mewn achosion eraill. Mae paragraff (2) yn darparu cafeat ar gyfer (3) a (4).

9.101 Byddai'r effaith yn golygu pan fyddai'r ymgymerwr yn cynnig dileu hawliau ymgymerwyr statudol neu symud neu ail-leoli eu cyfarpar, a phan na fyddai'r ymgymerwyr statudol hynny'n ddarostyngedig i erthygl 43(1)(b) (sef cyfarpar ymgymerwyr statudol o fewn cyfyngiadau'r Gorchymyn) yna byddai'r ymgymerwyr hynny'n dod o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n gwneud darpariaethau ynghylch dileu hawliau ymgymerwyr statudol ac yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag iawndal.

9.102 Mae'r erthygl hon yn debyg iawn i erthygl 42 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2016, a'r unig wahaniaeth sylweddol yw nad yw'r Gorchymyn hwn yn cyfeirio at atodlen sy'n berthnasol i warchod ymgymerwyr statudol. Mae erthygl 50 yn gweithredu Atodlen 15 (darpariaethau gwarchodol) ar wahân (fel yr eglurir isod).

*Erthygl 44 (Adennill costau cysylltiadau newydd)*

9.103 Mae'r erthygl hon yn union yr un fath ag erthygl 34 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

9.104 Mae'n darparu ar gyfer talu iawndal i berchnogion neu feddianwyr eiddo y mae symud cyfarpar yn unol ag erthygl 43 (ymgymerwyr statudol) yn effeithio ar eu cyflenwad.

## 10 Rhan 6 - Amrywiol a chyffredinol

*Erthygl 45 (Cymhwyso cyfraith landlord a thenant)*

10.1 Mae'r erthygl hon yn rheoli'r National Grid yn prydlesu tir i unrhyw unigolyn arall. Mae'n caniatáu i delerau'r brydles ddiystyru unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n ymwneud â chyfraith landlord a thenant. Mae'r erthygl hon yn union yr un fath â'r erthygl darpariaethau enghreifftiol cyffredinol ac eithrio rhai mân newidiadau o ran moderneiddio'r iaith. Mae hyn hefyd yn union yr un fath ag erthygl 36 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016

ac mae wedi'i chynnwys er mwyn eglurder ac er mwyn cael cysondeb wrth gymhwyso unrhyw brydlesi o'r fath ar hyd y ffordd.

*Erthygl 46 (Amddiffyn achosion yng nghyswllt niwsans statudol)*

10.2 Mae adran 158 y Ddeddf yn cyflwyno awdurdod statudol at ddibenion amddiffyn mewn achos o niwsans statudol yn gyffredinol. Mae'r erthygl hon yn diwygio telerau'r amddiffyn yn achos niwsans sŵn (mae adran 158 yn parhau i amddiffyn mathau eraill o niwsans yn gyffredinol). Mae'r amddiffyn ar gael os yw'r sŵn yn ymwneud ag (1) adeiladu neu gynnal a chadw'r prosiect a bod hynny'n unol ag unrhyw reolaethau a osodir gan yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974[a], (2) o ganlyniad i adeiladu neu gynnal a chadw ac nad oes modd osgoi hynny'n rhesymol, neu (3) mae o ganlyniad i gydymffurfio â'r Gorchymyn ac nid oes modd ei osgoi yn rhesymol. Mae'r amddiffyn ar gael hefyd os oes modd priodoli'r niwsans i ddefnyddio'r prosiect a bod hynny'n unol â'r Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryndod sydd wedi'i ardystio neu os nad oes modd ei osgoi yn rhesymol.

10.3 Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar erthygl 7 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, gan ddileu cyfeiriadau at adran 65 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974, ar ôl ei diddymu. Mae geiriad erthygl 45 yn ymddangos yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 38), ac eithrio paragraff (1)(a)(iii), sy'n dod o erthygl 7(1)(b) Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014. Mae'n briodol cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Gorchymyn er mwyn sicrhau nad yw hawliadau niwsans yn cael eu hystyried yng nghyd-destun buddion ehangach y datblygiad awdurdodedig.

*Erthygl 47 (rheoleiddio traffig)*

10.4 Mae'r erthygl hon yn caniatáu i'r National Grid, gyda chaniatâd yr awdurdod traffig, i reoli traffig ar y ffyrdd ac i'r graddau a nodir yn Rhannau 1 i 7 Atodlen 14, neu i unrhyw raddau eraill sy'n fuddiol neu'n angenrheidiol ar gyfer adeiladu'r datblygiad awdurdodedig. Nid yw'r erthygl hon yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, ond mae'n gyffredin mewn gorchmynion sy'n rhoi caniatâd ar gyfer prosiectau seilwaith[b]. Daw'r erthygl hon o Orchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 40) ac mae wedi cael ei diwygio i ganiatáu ar gyfer rheoli traffig at ddibenion sy'n ategol i'r datblygiad awdurdodedig. Mae'n angenrheidiol at ddibenion adeiladu'r datblygiad awdurdodedig mewn modd sy'n fuddiol ac yn ddiogel i gontractwyr a'r cyhoedd.

---

[a] c.40.

[b] Gweler erthygl 37 Gorchymyn (Hitchin (Cyffordd Caergrawnt) Network Rail 2011. Gweler hefyd erthygl 38 Gorchymyn (Gwelliannau i Ardal Norton Bridge) Network Rail 2014.

10.5 Fel yr eglurwyd yn gynharach, mae'r erthygl hon yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi y tybir bod caniatâd wedi'i roi gan yr awdurdod traffig os nad yw'r awdurdod yn rhoi gwybod i'r National Grid am ei benderfyniad cyn pen 28 diwrnod i dderbyn y cais.

*Erthygl 48 (Torri neu docio)*

10.6 Mae'r erthygl hon yn caniatáu i unrhyw goeden, llwyn, gwrych neu wrych pwysig ger y datblygiad awdurdodedig gael eu torri, eu tocio neu eu coedlannu, neu gael torri eu gwreiddiau, os ystyrir eu bod yn llesteirio gwaith adeiladu, gweithredu neu gynnal a chadw'r prosiect neu'n rhoi unrhyw un sy'n gyfrifol am ei adeiladu, ei gynnal a'i gadw neu ei weithredu mewn perygl. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r datblygiad awdurdodedig allu cael ei gyflwyno mewn modd sy'n fuddiol ac yn ddiogel a bod modd ei gynnal a'i gadw yn yr un modd.

10.7 Mae iawndal yn daladwy am unrhyw golled neu ddifrod a achosir.

10.8 Mae'r erthygl yn seiliedig ar erthygl y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, ond mae'n ymestyn y pŵer i gynnwys coedlannu, a gwrychoedd a gwrychoedd pwysig, ac yn dileu cyfeiriadau at 'deithwyr' yn erthygl 48(1)(b) gan nad yw bob amser yn berthnasol i'r datblygiad a awdurdodir gan y Gorchymyn.

10.9 Mae erthygl 48(4)-(6) yn ymestyn y darpariaethau y tu hwnt i'r ddarpariaeth enghreifftiol cyffredinol. Mae erthygl 48(4) yn adlewyrchu erthygl 41(5) Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016, ac mae'n ofynnol cael caniatâd yr awdurdod priffyrdd cyn torri neu docio coeden sydd o fewn neu sy'n hongian uwch ben y briffordd gyhoeddus.

10.10 Mae erthyglau 48(6) a (7) yn dileu unrhyw rwymedigaeth i sicrhau cydsyniad i symud gwrychoedd o dan Reoliadau Gwrychoedd 1997, ac maent yn seiliedig ar erthygl 31(5) a (6) Gorchymyn Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru 2016[a].

*Erthygl 49 (Coed sy'n ddarostyngedig i orchymyn diogelu coed)*

10.11 Mae'r erthygl hon yn caniatáu i'r National Grid dorri neu docio coed a restrir yn Atodlen 14 (Coed sy'n ddarostyngedig i orchymyn diogelu coed). Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar erthygl 40 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, gyda mân newidiadau i erthygl 49(1)(b) i ddisodli "defnyddio'r prosiect awdurdodedig" ag "adeiladu, cynnal a chadw neu weithredu'r datblygiad awdurdodedig", oherwydd nad yw'n bosibl i unigolyn ddefnyddio'r llinellau trydan uwch ben. Mae mân ddiweddariadau ieithyddol eraill wedi'u cynnwys hefyd.

[a] OS 2016/818

10.12 Mae'r erthygl hon yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y National Grid yn gallu cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002.

*Erthygl 50 (Gwarchod buddiannau)*

10.13 Mae'r erthygl hon yn darparu bod Atodlen 15 (darpariaethau gwarchod) yn weithredol. Mae'r darpariaethau gwarchod yn ceisio gwarchod ymgymerwyr statudol y gallai'r datblygiad awdurdodedig effeithio ar eu hasedau.

*Erthygl 51 (Gweithdrefn ynghylch cymeradwyaethau penodol ac ati)*

10.14 Mae'r erthygl hon yn cynnwys darpariaethau ychwanegol yng nghyswllt unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd neu gytundeb sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn. Mae'n darparu bod yn rhaid i unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd neu gytundeb a roddir gan y corff perthnasol gael ei roi ar bapur ac na ddylid ei atal na'i oedi'n afresymol.

10.15 Mae hefyd yn darparu bod y gweithdrefnau a nodir yn Atodlen 4 (cyflawni gofynion) yn berthnasol i unrhyw ganiatâd, cytundeb neu wrthodiad sy'n angenrheidiol o dan y Gofynion a nodir yn Atodlen 3 (gofynion) ac unrhyw gydsyniad arall sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn. Mae'r erthygl yn egluro'r weithdrefn sy'n berthnasol yng nghyswllt y cydsyniadau ychwanegol hyn.

10.16 Mae Atodlen 4 (cyflawni gofynion) yn nodi'r broses apelio yng nghyswllt materion o'r fath ac yn nodi pa bryd mae modd apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni materion, gan gynnwys y gofynion yn Atodlen 3 (gofynion) a chydsyniadau neu gymeradwyaethau eraill sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn.

10.17 Mae'r erthygl hon ac Atodlen 4 (cyflawni gofynion) sy'n gysylltiedig, yn adlewyrchu'r dull a ddilynir yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 46), sydd yn ei dro, yn adlewyrchu'r dull sydd wedi'i fabwysiadu yng Ngorchymyn (Prosiect Atgyfnerthu Gogledd Llundain) 2014 (erthygl 45 ac Atodlen 3) a Gorchymyn (Gorsaf Gynhyrchu Niwclear) Hinkley Point C 2013. Yr unig wahaniaeth rhwng y geiriad yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 a geiriad y Gorchymyn arall yw bod y Gorchymyn yn nodi'n amlwg na ddylid atal nac oedi unrhyw gydsyniad, cytundeb na chymeradwyaeth a roddir o dan yr erthygl hon yn afresymol.

10.18 Ystyrir bod y broses apelio'n gymesur ac yn gyfiawn wrth ystyried maint a graddfa'r datblygiad awdurdodedig a gynigir i sicrhau bod y datblygiad awdurdodedig yn cael ei gyflawni'n brydlon.

*Erthygl 52 (Diogelu)*

10.19 Nid yw'r erthygl hon yn ddarpariaeth enghreifftiol ac mae'n seiliedig ar erthygl 52 Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014. Mae paragraffau (1) a (3) - (6) y Gorchymyn yn adlewyrchu'r paragraffau (1), a (5) – (8) Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 yn fras. Mae paragraff (5) yn cael ei ddiwygio i sicrhau y rhoddir sylw i faterion a godir mewn sylwadau a ddaw i law yn unol â'r erthygl hon. Mae'r paragraff dehongli wedi cael ei deilwra yn unol ag anghenion yr erthygl hon.

10.20 Egwyddor y ddarpariaeth hon yw diogelu'r twnnel ar ddyfnder o 10 metr neu fwy, a seilwaith arall yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, rhag effeithiau niweidiol y datblygiad yng nghyffiniau'r datblygiad awdurdodedig ac er mwyn cynnal integriti gweithredol y datblygiad awdurdodedig.

10.21 Nid oes mecanwaith statudol wedi'i sefydlu ar gyfer hyn a fyddai'n fodd digonol o ddiogelu integriti gweithredol y twnnel a'r seilwaith cysylltiedig.

10.22 Y pwerau ar gyfer cynnwys y ddarpariaeth hon yw adrannau 120(3) a (5) y Ddeddf. Mae'r ddarpariaeth ddiogelu yn "ddarpariaeth sy'n ymwneud â, neu faterion sy'n ategol i, ddatblygiad sydd eisoes wedi cael cydsyniad" gan y Gorchymyn hwn (gweler a.120(3)); ac mae hefyd yn "angenrheidiol neu'n fuddiol er mwyn gweithredu" darpariaethau eraill y Gorchymyn yn llawn (gweler a.120(5)(c)).

10.23 Y rhesymeg dros y ddarpariaeth hon - sy'n egluro sut mae cymhwyso'r pwerau a nodir uchod - yw y byddai'n ddibwys i'r Gorchymyn hwn awdurdodi gwaith pe byddai gwaith arall yn agos iawn at y gwaith hwn yn peryglu ei ddiogelwch. Yn benodol, gallai diogelwch y gwaith a awdurdodir gan y Gorchymyn hwn fod mewn perygl o ganlyniad i weithgareddau nad ydym yn gwybod amdanynt eto gan drydydd partïon.

10.24 Fodd bynnag, nid yw graddau'r ddarpariaeth hon yn llwyddo i atal rhoi caniatâd cynllunio: yr hawl a roddir yw hawl i ymgynghori â chi ac i'r ymateb gael ei ystyried. Yna, bydd yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn gallu ystyried tystiolaeth beirianneg ynghylch effaith debygol unrhyw waith newydd arfaethedig ar ddiogelwch y twnnel a holl rannau eraill y datblygiad awdurdodedig o fewn cyfyngiadau'r Gorchymyn; ac ystyried pa gamau, os o gwbl, ddylid eu cymryd i sicrhau nad yw'r gwaith arfaethedig o dan y caniatâd cynllunio newydd yn peryglu'r twnnel.

10.25 Y prif gynseiliau ar gyfer y ddarpariaeth hon yw erthyglau 14 a 15 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu)

(Cymru) 2012[a] ("Gorchymyn 2012"), sy'n sefydlu cynsail sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori cyn rhoi caniatâd i geisiadau cynllunio. Mae'r cynseiliau hyn yn dangos nad oes anawsterau gweinyddol i awdurdodau cynllunio lleol nad oes modd eu goresgyn wrth weithredu darpariaeth o'r math yma. Mae erthygl 14 o Orchymyn 2012 hefyd yn deillio o Gyfarwyddiadau Diogelu, ac mae awdurdodau cynllunio lleol yn gyfarwydd â'r rhain, ac maent yn ateb dibenion tebyg i'r ddarpariaeth hon.

10.26 Mae paragraff (2) erthygl 52 yn nodi'r mecanweithiau sy'n berthnasol ar gyfer datblygiad awdurdodedig, y mae modd eu defnyddio i ddisgrifio'r ardal yr effeithir arni. Nid yw'r datblygiad y mae'r erthygl hon o'r Gorchymyn yn berthnasol iddo mor sylweddol â'r datblygiad yr oedd Gorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 yn berthnasol iddo. Felly, mae cwmpas paragraff (2) y Gorchymyn wedi'i leihau i adlewyrchu anghenion y datblygiad awdurdodedig.

10.27 Mae darpariaethau atodol paragraff (3) wedi'u tynnu o erthygl 14 Gorchymyn 2012 a drafodwyd uchod.

*10.28* Er mwyn i awdurdodau cynllunio lleol allu cydymffurfio â'r ddarpariaeth hon heb wynebu gormod o faich gweinyddol, ac er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol, mae paragraff (6) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â phridiant tir lleol. Canlyniad hyn yw, yn ystod camau cynnar arferol delio â chais am ganiatad cynllunio, bydd presenoldeb y ddarpariaeth hon yn dod yn amlwg i bawb dan sylw. (Mae'n arfer safonol datgelu Cyfarwyddiadau Diogelu mewn ymateb i Ymholiadau Dewisol a anfonir gyda'r ceisiadau am chwilio'r gofrestr pridiannau tir lleol[b]; mae dull y Gorchymyn hwn yn manteisio ar statws y Gorchymyn fel darpariaeth statudol at ddibenion adran 1(1)(e) Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (gweler y diffiniad yn adran 14(1)).)

---

[a] O.S. 2012/801; gweler, yn benodol, erthygl 14(1): "Cyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad, sydd, ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, yn dod o fewn categori a nodir yn y Tabl yn Atodlen 4, rhaid i'r awdurdod hwnnw ymgynghori â'r awdurdod, y corff neu'r unigolyn a nodir mewn cysylltiad â'r categori hwnnw..."

[b] Gweler, er enghraifft, yng nghyswllt Crossrail yn Lloegr: "Yn unol ag erthygl 25(4)(b) GDPO, rhaid cofnodi manylion y Cyfarwyddiadau yn Rhan II y Gofrestr o Geisiadau, yng nghyswllt unrhyw gais am ganiatâd cynllunio sy'n berthnasol iddynt. Mae'r Adran hefyd o'r farn y dylid datgelu'r darpariaethau diogelu mewn ymateb i Ymholiadau Dewisol a anfonir â cheisiadau am chwilio'r gofrestru pridiannau tir lleol, yng nghyswllt eiddo yn y parth ymgynghori, ac o fewn 200 metr i'r ardaloedd o ddiddordeb arwyneb sydd wedi'u lliwio ar y cynlluniau sydd wedi'u hatodi i'r Cyfarwyddiadau." - http://www.crossrail.co.uk/assets/library/document/4/original/4_safeguarding_directions_schedule_guidance_and_explanatory_notes.pdf .

*Erthygl 53 (Dim adfeddiannu dwbl)*

10.29 Nid yw hon yn ddarpariaeth enghreifftiol ac mae’n seiliedig ar erthygl 44 Gorchymyn (Cymalau Enghreifftiol i Reilffyrdd a Thramffyrdd) Trafnidiaeth a Gweithfeydd 2006. Mae gan yr erthygl hon gynsail mewn nifer o Orchmynion y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd ac mae’n ymddangos yng Ngorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 48) ac yn fwy diweddar yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid (ond mae’n cynnwys rhai gwahaniaethau ieithyddol mân iawn).

10.30 Mae’n darparu nad yw iawndal yn daladwy o dan y Gorchymyn hwn nac o dan unrhyw ddeddfiad, contract na rheol gyfreithiol arall. Mae’n dilyn yr egwyddor sydd wedi’i hen sefydlu o gywerthedd nad yw hawlydd yn cael iawndal am ddim mwy na dim llai na’r hyn y mae wedi’i golli.

*Erthygl 54 (Cymhwyso, datgymhwyso ac addasu darpariaethau deddfwriaethol)*

10.31 Mae’r erthygl hon yn cael effaith debyg i erthygl 6 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, sy’n delio â chymhwyso ac addasu darpariaethau deddfwriaethol. Mae modd cyfiawnhau cynnwys y ddarpariaeth hon oherwydd yr angen i atal gwrthdaro yn y darpariaethau deddfwriaethol presennol rhag llesteirio’r broses o gyflawni'r cynllun. Mae darpariaeth debyg iawn wedi cael ei chynnwys yng Ngorchymyn (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited 2014 (erthygl 56).

10.32 Mae adran 120(5)(a) y Ddeddf yn darparu y caiff Gorchymyn sy’n caniatáu datblygiad gymhwyso, addasu neu eithrio darpariaeth statudol sy’n berthnasol i unrhyw fater y byddai modd gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn y Gorchymyn.

*Erthygl 55 (Diwygio deddfwriaeth leol)*

10.33 Mae’r erthygl hon yn cael effaith debyg i erthygl 6 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Mae’n ceisio eithrio is-ddeddfau a deddfwriaethau lleol a restrir yn Atodlen 18 ac mewn deddfwriaethau eraill sy’n berthnasol yn lleol, yn unol ag adran 120(5) y Ddeddf. Mae cynsail ar gyfer yr egwyddor yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (Twnnel Thames Tideway) Thames Water Utilities Limited (erthygl 57), Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 47) a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017 (erthygl 46).

10.34 Y bwriad yw nodi deddfwriaeth leol - yn arbennig deddfwriaeth sy’n ymwneud â seilwaith (rheilffyrdd, camlesi, porthladdoedd, yn ogystal â draeniau lleol) - a allai fod yn anghyson â’r broses o arfer pwerau’r DCO.

10.35 Er bod ymdrechion rhesymol wedi’u gwneud i nodi’r holl ddeddfwriaeth leol sy’n gymwys a allai effeithio ar y datblygiad awdurdodedig, nid yw’n briodol nac yn ymarferol sicrhau bod pob deddfwriaeth o’r fath wedi’i nodi ar gyfer prosiect llinellol ar y raddfa hon. Felly, nid yw’r erthygl hon wedi’i chyfyngu o ran cwmpas i geisio nodi deddfwriaeth sy’n gymwys yn lleol yn unig, a allai atal cyflawni’r prosiect seilwaith hwn sydd o arwyddocâd cenedlaethol. Ond oherwydd natur y prosiect a natur y ddeddfwriaeth leol bosibl, mae hefyd yn ceisio rhoi sylw i ddeddfwriaeth leol nad yw wedi’i hadnabod. Felly, ystyrir ei bod yn briodol eithrio deddfwriaeth o’r fath a allai lesteirio’r broses o gyflawni'r datblygiad awdurdodedig hwn.

10.36 Fel mesur diogelwch, os bydd y National Grid yn cael gwybod y byddai unrhyw beth sydd i’w wneud o dan y Gorchymyn yn groes i ddarpariaeth statudol ar gyfer cymhwyso’n lleol, mae’n rhaid i’r National Grid ymateb cyn pen 14 diwrnod, gan nodi a yw’n cytuno y byddai’n groes ac ar ba sail y mae’n credu y mae’r erthygl wedi’i heithrio ac i ba raddau y mae hynny.

*Erthygl 56 (Ardystio dogfennau)*

10.37 Mae’r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i’r National Grid gyflwyno fersiynau terfynol o'r cynlluniau a’r dogfennau a restrir yn erthygl 56 i’r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn cael eu hardystio. Mae’r erthygl yn seiliedig ar erthygl 51 y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol. Wrth ddilyn dull Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016 (erthygl 44), mae’r erthygl hon wedi’i diwygio i gyfeirio at enwau’r cynlluniau a’r dogfennau sy’n rhan o’r cais, yn debyg i Orchymyn Cydsyniad Datblygu (Prosiect Cysylltiad Richborough) y National Grid 2017.

*Erthygl 57 (Cyflwyno hysbysiadau)*

10.38 Mae’r erthygl hon yn rheoli sut bernir bod unrhyw hysbysiadau y gellir eu cyflwyno o dan y Gorchymyn wedi’u cyflwyno’n briodol. Yn benodol, mae’n caniatáu cyflwyno dros e-bost gyda chaniatâd y sawl sy’n derbyn, ac mae’n delio â sefyllfa o gyflwyno i berchennog tir nad yw’n hysbys. Er nad yw’r erthygl hon yn y darpariaethau enghreifftiol cyffredinol, mae’n gyffredin cael erthygl o’r fath mewn gorchymyn sy’n awdurdodi datblygiad fel yr un yma. Mae geiriad yr erthygl yn ailadrodd geiriad erthygl 35 Gorchymyn (Nuneaton North Chord) Network Rail 2010 ac erthygl 45 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016. Mae’r ddarpariaeth yn angenrheidiol oherwydd na fyddai cyflwyno hysbysiad o ddarpariaethau o dan adrannau 229 a 230 y Ddeddf yn berthnasol i hysbysiadau a gyflwynir o dan orchymyn cydsyniad datblygu.

*Erthygl 58 (Cyflafareddu)*

10.39 Mae'r erthygl hon yn rheoli beth fydd yn digwydd pan fydd dau barti'n anghytuno ynghylch rhoi unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn ar waith. Bydd y mater yn cael ei ddatrys drwy gyfrwng cyflafareddu, ac os na fydd y partïon yn gallu cytuno ar bwy ddylai'r cyflafareddwr fod, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu. Mae'r erthygl yn seiliedig ar y ddarpariaeth enghreifftiol gyffredinol gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol fel corff priodol i adlewyrchu'r sefyllfa y cytunwyd arni yn y Gorchmynion Cydsyniad Datblygu a wnaed yn ddiweddar, fel Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

*Erthygl 59 (Cymhwyso adrannau 91(3A) a (3B) o Ddeddf 1990)*

10.40 Dim ond i ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu tir yn Lloegr y mae adrannau 91 (3A) a (3B) yn berthnasol o dan Ddeddf 1990. Mae'r erthygl hon yn cymhwyso'r darpariaethau hyn i'r Gorchymyn fel pe bai'n ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu tir yn Lloegr. Mae hyn yn golygu, os bydd y Gorchymyn yn cael ei herio'n gyfreithiol, bydd y terfyn amser yn erthygl 33 (terfyn amser ar gyfer arfer awdurdod i gaffael tir yn orfodol) a'r cyfnod y mae'n rhaid dechrau gweithio ar y datblygiad awdurdodedig (Gofyniad 2) yn cael eu hymestyn flwyddyn i egluro'r oedi o ganlyniad i'r her gyfreithiol.

## 11 Atodlenni

11.1 Mae **Atodlen 1 (Datblygiad awdurdodedig)** yn nodi gwaith wedi'i rifo yn y datblygiad awdurdodedig y ceisir cydsyniad datblygu ar ei gyfer a datblygiadau cysylltiedig eraill. Dylid darllen y gwaith ochr yn ochr â'r cynlluniau gwaith.

11.2 Mae Rhifau Gwaith unigol wedi cael eu rhoi i'r prif waith parhaol sydd yn y datblygiad awdurdodedig. Mae datblygiadau cysylltiedig (fel ffyrdd mynediad) wedi'u cynnwys ym mhob un o'r rhain.

11.3 Mae'r gwaith llinellol (Gwaith Rhif 2-7, 8(g), 9 a 10) yn ddarostyngedig i'r terfynau gwyro yn Erthygl 5 ac maent i'w gweld ar y Cynlluniau Gwaith gyda llinellau canol a llinellau dechrau a diwedd i helpu i nodi lleoliad y gwaith.

11.4 Mae'r gwaith nad yw'n llinellol (Gwaith Rhif 1, 8 (ac eithrio 8(g)), 11 a 12) yn ddarostyngedig i'r paramedrau sy'n cael eu dangos ar y Lluniadau Dylunio. Mae prif elfennau'r gwaith hwn i'w gweld ar y Cynlluniau Gwaith (wedi'u lliwio'n oren).

11.5 Mae dau ddewis wedi'u cynnwys yn Adran C, ac mae'r rhain i'w gweld ar y Cynlluniau Gwaith. Ond, oherwydd bod y ddau ddewis yn debyg iawn i'w gilydd, nid oes angen i Atodlen 1 wahaniaethu rhwng y ddau (gweler Gwaith Rhif 6).

11.6 Mae Gwaith Rhif 4(b) yn awdurdodi “symud neu symud yn rhannol” y llinell drydan dros dro. Mae hyn fel nad oes angen symud seiliau is na 1.5 metr ac er mwyn sicrhau cysondeb â’r pwerau yn Erthyglau 26 (National Grid yn defnyddio tir dros dro) a 40 (Dileu hawliau preifat a chyfamodau caeth sy’n ymwneud â chyfarpar sy’n perthyn i’r National Grid ac SP Manweb yn cael eu symud oddi ar dir yn ddarostyngedig i feddiannu dros dro).

11.7 Mae **Atodlen 2 (Cynlluniau)** yn rhestru’r cynlluniau gwaith, y cynlluniau tir, y cynlluniau mynediad a hawliau tramwy a’r cynlluniau eraill sydd wedi’u cyflwyno gyda’r cais ac y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn.

11.8 Mae **Atodlen 3 y DCO 3 (Gofynion)** yn cynnwys gofynion drafft sy’n cyd-fynd â’r amodau y gellid bod wedi’u cynnwys wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad awdurdodedig, o dan adran 120(2) y Ddeddf, pa na fyddai wedi disgyn o fewn cwmpasiad y Ddeddf. Diben tebyg i amodau cynllunio sydd i’r gofynion.

11.9 **Gofyniad 1 y DCO:** Mae Gofyniad 1 (Dehongli) yn darparu ar gyfer dehongli geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodlen hon. Mae paragraff (2) yn debyg iawn i ofyniad enghreifftiol 36 (Gofyniad am gymeradwyaeth ysgrifenedig).

11.10 **Gofyniad 2 y DCO:** Mae Gofyniad 2 (terfynau amser) yn cyd-fynd â’r gofyniad enghreifftiol sy’n darparu bod yn rhaid dechrau gweithio ar y datblygiad awdurdodedig cyn pen 5 mlynedd i ddyddiad y Gorchymyn.

11.11 **Gofyniad 3 y DCO:** Mae Gofyniad 3 (Dylunio a Therfynau Gwyro) yn darparu y bydd y datblygiad awdurdodedig yn cael ei gyflawni yn unol â’r lluniadau dylunio, er mwyn caniatáu rhywfaint o ryddid, sy’n angenrheidiol ond yn gymesur wrth adeiladu’r prosiect seilwaith hwn sydd o arwyddocâd cenedlaethol. Yr eithriad i hyn yw pan fydd unrhyw beth sy’n wahanol i’r lluniadau dylunio yn arwain at effeithiau amgylcheddol perthnasol newydd neu wahanol i’r rhai hynny sydd wedi cael eu hasesu yn y datganiad amgylcheddol.

11.12 Mae’r lluniadau dylunio yn gymysgedd o baramedrau, manylion mynegol a manylion eglurhaol, fel sy’n briodol. Felly, mae ond yn bosibl i'r gwaith adeiladu fod yn unol â’r wybodaeth a ddangosir ar y rhain. Pan fydd y lluniadau hyn yn dangos offer neu nodweddion, enghreifftiau nodweddiadol o bob eitem yw’r rhain (hynny yw, ffordd gludo nodweddiadol). Byddai glynu’n llwyr ac yn llythrennol at yr adrannau mynegol yn cyfyngu ar allu’r National Grid i gyflawni’r datblygiad awdurdodedig o fewn yr hyblygrwydd angenrheidiol y mae’r National Grid yn ei geisio.

11.13 **Gofyniad 4 y DCO:** Mae Gofyniad 4 (Dyluniad y Prif Dŷ Twnnel) yn darparu y bydd yr elfennau hynny sydd ar y tir ar gyfer y datblygiad awdurdodedig yng Ngwaith Rhif 8 (Prif Dai Twnnel Afon Braint a Tŷ

Fodol) yn cael eu cyflawni yn unol â phrif egwyddorion dylunio Canllaw Dylunio Prif Dŷ Twnnel (Dogfen 7.19), oni chytunir yn wahanol â'r awdurdod cynllunio perthnasol. Mae dull o'r fath yn sicrhau hyblygrwydd angenrheidiol ond cymesur wrth adeiladu'r elfennau hyn. Mae'n angenrheidiol gallu cael yr awdurdod cynllunio perthnasol i gymeradwyo amrywiad i'r prif egwyddorion cynllunio er mwyn gallu gwyro o'r prif egwyddorion cynllunio.

11.14 **Gofyniad 5 y DCO:** Mae Gofyniad 5 (Camau datblygiad awdurdodedig) yn darparu ar gyfer cynhyrchu un cynllun llwyfannu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig cyn y bydd modd dechrau datblygu, ac ar gyfer rhoi hysbysiad o ddechrau a chwblhau pob cam i'r awdurdod cynllunio perthnasol.

11.15 **Gofyniad 6 y DCO:** Mae Gofyniad 6 (Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu) yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl waith adeiladu gael ei wneud yn unol â'r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu fel sydd wedi'i ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu yn gysylltiedig â'r gwahanol gynlluniau, trefniadau a strategaethau a restrir yng ngofyniad 6(2). Os yw hyn yn berthnasol i'r gwaith, a dim ond os yw'r awdurdod cynllunio perthnasol yn cytuno â hynny, mae is-baragraff (3) yn darparu ar gyfer trydydd parti yn darparu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu ar wahân. Mae hyn yn sicrhau nad oes gofyn afresymol ar y trydydd parti i gydymffurfio â Chynllun o'r fath a baratowyd gan y National Grid, nad yw'n gweithio'n ymarferol ar gyfer ei elfen hwy o'r datblygiad awdurdodedig. Mae is-baragraffau (1) a (4) yn darparu bod yn rhaid rhoi'r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu a'r cynlluniau, y trefniadau a'r strategaethau cysylltiedig ar waith fel y maent wedi'u cymeradwyo, oni chytunir yn wahanol â'r awdurdod cynllunio perthnasol. Mae'r hyblygrwydd i wyro oddi wrth y Cynllun sydd wedi'i ardystio yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn delio ag unrhyw newid sy'n angenrheidiol ar ôl ardystio. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd natur linellol y cynllun a'r cyfnod adeiladu hir.

11.16 **Gofyniad 7 y DCO:** Mae Gofyniad 7 (Cymeradwyo a rhoi cynlluniau lliniaru adeiladu ar waith) yn darparu ar gyfer cyflwyno cynlluniau, trefniadau a strategaethau priodol sydd wedi'u rhestru yn y gofyniad i'r awdurdod cynllunio perthnasol, a bod yr awdurdod hwnnw yn eu cymeradwyo. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r cynlluniau, y trefniadau a'r strategaethau hynny sydd wedi'u cymeradwyo.

11.17 **Gofyniad 8 y DCO:** Mae Gofyniad 8 (Oriau Adeiladu) yn cadarnhau yn ystod pa oriau y caniateir gwaith adeiladu. Mae oriau adeiladu craidd wedi'u cynnwys yn is-baragraff (1). Mae is-baragraff (2) yn darparu ar gyfer terfynau penodol ar gyfer gwaith taro pyst. Mae oriau adeiladu yng nghyswllt gwaith twneli yn cael eu diffinio yn is-baragraff (3). Mae hyn yn gwahanu ffrwydro allan wrth geg twneli (3a) a drilio arwynebau a growtio llenni (3b) i sicrhau bod cyfyngiadau priodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith yn unol â natur y gwaith. Mae is-baragraff (4) yn

rhestru nifer o weithgareddau nad ydynt yn ddarostyngedig i'r oriau gwaith craidd. Mae is-baragraff (5) yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer gweithgareddau cychwyn a chwblhau nad ydynt yn amharu, a hynny y tu allan i'r oriau adeiladu craidd. Mae diffiniad o weithgareddau cychwyn a chwblhau wedi'u cynnwys yng Ngofyniad 1 y DCO. Mae'r hyblygrwydd i gyflawni gweithgareddau cychwyn a chwblhau y tu allan i'r oriau adeiladu craidd yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn i'r prif waith symud ymlaen yn unol â'r amserlen, yn unol â'r rhaglen ac yn unol â'r oriau sydd wedi'u nodi.

11.18 **Gofyniad 9 y DCO:** Mae Gofyniad 9 (Cynllun plannu er mwyn lliniaru) yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y gwaith plannu angenrheidiol, gan gynnwys paratoi cynllun plannu ar gyfer pob cam o'r datblygiad awdurdodedig, oni chytunir yn wahanol â'r awdurdod cynllunio perthnasol. Bydd yr hyblygrwydd i beidio â pharatoi cynllun plannu ar gyfer cam penodol yn berthnasol ar gyfer y camau hynny o'r prosiect lle na fydd gwaith plannu'n cael ei gynnig, er enghraifft ar gyfer y twnnel.

11.19 **Gofyniad 10 y DCO:** Mae Gofyniad 10 (Rhoi cynllun plannu er mwyn lliniaru ar waith) yn ymwneud â rhoi cynllun plannu er mwyn lliniaru ar waith ac mae'n diffinio'r amserlenni. Mae'r hyblygrwydd i wyro o amserlenni plannu o dan is-baragraff (1) yn gymesur ac yn angenrheidiol os canfyddir bod amserlen hwy yn hanfodol a/neu'n fuddiol ar gyfer cam penodol yn nes ymlaen, a dim ond pan geir cytundeb yr awdurdod cynllunio perthnasol.

11.20 **Gofyniad 11 y DCO:** Mae Gofyniad 11 (Cynnal a chadw'r cynllun plannu er mwyn lliniaru sydd wedi'i roi ar waith) yn ymwneud â'r cyfnod y mae'r gwaith plannu sy'n gysylltiedig â'r cynllun plannu er mwyn lliniaru'n cael ei gynnal a'i gadw. Bydd coed o'r un maint a rhywogaeth yn cael eu plannu yn lle coed sydd wedi'u difrodi neu sydd wedi'u heintio, oni chytunir yn wahanol â'r awdurdod cynllunio perthnasol. Mae'r hyblygrwydd i ganiatáu gwahanol feintiau a rhywogaethau yn galluogi'r hyblygrwydd cymesur i blannu coed sy'n gwneud yn well os yw'r rhywogaethau gwreiddiol yn methu, a dim ond pan geir cytundeb yr awdurdod cynllunio perthnasol.

11.21 **Gofyniad 12 y DCO:** Mae Gofyniad 12 (Cadw a gwarchod coed a gwrychoedd presennol) yn sicrhau bod Strategaeth Gwarchod Coed a Gwrychoedd yn cael ei pharatoi ar gyfer pob cam, ac na fydd y gwaith perthnasol yn dechrau nes bydd y mesurau gwarchod sydd wedi'u cymeradwyo ar waith. Darperir yr hyblygrwydd i wyro o Strategaeth sydd wedi'i chymeradwyo yn is-baragraff (5). Mae'r hyblygrwydd hwn yn angenrheidiol ac yn gymesur, pe byddai angen gwyro ar ôl dechrau ar gam perthnasol o'r datblygiad awdurdodedig, a dim ond pan geir cytundeb yr awdurdod cynllunio perthnasol.

11.22 **Gofyniad 13 y DCO:** Mae Gofyniad 13 (Cynlluniau adfer) yn darparu ar gyfer adfer tir. Mae hyn yn ddarostyngedig i Erthygl 26 (National

Grid yn defnyddio tir dros dro) ac Erthygl 27 (SP Manweb yn defnyddio tir dros dro).

11.23 **Gofyniad 14 y DCO:** Mae Gofyniad 14 (Tir halogedig a dyfroedd a reolir) yn darparu na chaiff unrhyw gam o'r datblygiad awdurdodedig ddechrau nes bydd cynllun ysgrifenedig sy'n berthnasol i'r cam hwnnw ar amodau'r tir wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio perthnasol a/neu awdurdod cyflawni arall fel sy'n berthnasol.

11.24 **Gofyniad 15 y DCO:** Mae Gofyniad 15 (Arolygu cyrsiau dŵr dros dro) yn darparu na chaiff unrhyw gam o'r datblygiad awdurdodedig ddechrau nes bydd cynllun ysgrifenedig ar gyfer arolygu cyrsiau dŵr dros dro sy'n berthnasol i'r cam hwnnw wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio perthnasol a/neu awdurdod cyflawni arall fel sy'n berthnasol.

11.25 **Gofyniad 16 y DCO:** Mae Gofyniad 16 (Symud pontydd neu gwlfertau dros dro) yn darparu ar gyfer symud strwythurau dros dro o'r fath cyn pen 12 mis (neu gyfnod hwy os ceir cytundeb) i gwblhau'r gwaith adeiladu ar y cam hwnnw o'r datblygiad awdurdodedig yr oedd ei angen.

11.26 **Gofyniad 17 y DCO:** Mae Gofyniad 17 (Gwaith priffyrdd) yn darparu na chaiff unrhyw waith i adeiladu unrhyw ddull parhaol na dros dro o gael mynediad i briffordd ddechrau nes bydd y manylion ysgrifenedig wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol ac wedi'u cymeradwyo ganddo.

11.27 **Gofyniad 18 y DCO:** Mae Gofyniad 18 (Datgomisiynu) yn darparu ar gyfer datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig (ac eithrio is-orsafoedd), gyda'r manylion i'w cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio perthnasol o leiaf chwe mis cyn i unrhyw waith datgomisiynu ddechrau.

11.28 **Gofyniad 19 y DCO:** Mae Gofyniad 19 (Sŵn Gweithredol) yn darparu terfynau sŵn gweithredol ar gyfer safleoedd y prif dai twnnel.

11.29 Mae **Atodlen 4 (Cyflawni gofynion)** yn nodi dau fecanwaith – mae'r cyntaf yn berthnasol i unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth y mae'n rhaid eu cael o dan y Gofynion a nodir yn Atodlen 3, ac mae'n pennu'r elfennau y mae'n rhaid eu dilyn yn y weithdrefn. Mae'r rhan olaf yn egluro'r weithdrefn ar gyfer apelio sy'n berthnasol yng nghyswllt unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth y mae angen eu sicrhau yn unol â'r Gofynion, unrhyw ddogfen y cyfeirir ati yn y Gofynion, neu mewn unrhyw fan arall yn y Gorchymyn hwn.

11.30 Mae'r atodlen hon yn seiliedig ar atodlen 3 Gorchymyn (Prosiect Atgyfnerthu Gogledd Llundain) y National Grid 2014, Atodlen 14 Gorchymyn (Gorsaf Gynhyrchu Niwclear) Hinkley Point C 2013 ac Atodlen 4 Gorchymyn (Prosiect Cysylltiad Hinkley Point C) y National Grid 2016.

11.31 Mae Atodlen 4 wedi cael ei thrafod â’r cyrff cyflawni perthnasol.

11.32 Mae **Atodlen 5 (Strydoedd sy’n destun gwaith stryd)** yn nodi'r strydoedd y cyfeirir atynt yn erthygl 11 sy’n destun gwaith stryd.

11.33 Mae **Atodlen 6 (Strydoedd sy’n destun newid cynllun)** yn nodi'r strydoedd, y cyfeirir atynt yn erthygl 13, sy'n destun newid cynllun naill ai’n barhaol neu dros dro.

11.34 Mae **Atodlen 7 (Cau strydoedd neu hawliau tramwy cyhoeddus dros dro)** yn nodi’r strydoedd a’r hawliau tramwy cyhoeddus sy’n destun cael eu cau dros dro o dan erthygl 14.

11.35 Mae **Atodlen 8 (Mynediad i waith)** yn nodi’r lleoliadau y cyfeirir atynt yn erthygl 15, lle byddai mynediad yn cael ei chymryd o’r briffordd gyhoeddus, at ddibenion adeiladu a/neu weithredu/cynnal a chadw.

11.36 Mae **Atodlen 9 (Addasu deddfiadau iawndal a phrynu gorfodol er mwyn creu hawliau newydd)** yn unol ag erthygl 23 yn nodi’r addasiadau i’r darpariaethau statudol sy’n berthnasol i iawndal a phrynu gorfodol o dan y Gorchymyn lle bydd hawliau newydd yn cael eu caffael neu gyfyngiadau’n cael eu gosod.

11.37 Mae **Atodlen 10 (Tir lle mai dim ond isbridd sy’n is na 9 metr o dan yr arwyneb fydd ei angen o bosibl)** yn nodi'r tir y cyfeirir ato yn erthygl 25.

11.38 Mae **Atodlen 11 (Tir y mae modd ei feddiannu dros dro)** yn nodi'r tir y cyfeirir ato yn erthyglau 26 a 27 y caiff y National Grid ac SP Manweb (yn y drefn honno) eu meddiannu dros dro (er nodi’r pŵer meddiannu ehangach yng nghyswllt Tir y Gorchymyn) a’r diben y mae modd meddiannu dros dro ar ei gyfer.

11.39 Mae **Atodlen 12 (Dileu hawliau preifat a chyfamodau caeth sy’n ymwneud â chyfarpar sy’n perthyn i’r National Grid neu SP Manweb sydd wedi cael eu symud oddi ar y tir yn ddarostyngedig i feddiannu dros dro)** yn nodi’r lleiniau hynny lle bydd hawliau yng nghyswllt cyfarpar sydd wedi cael eu symud yn cael eu dileu o dan erthygl 40.

11.40 Mae **Atodlen 13 (Rheoleiddio traffig)** yn nodi’r strydoedd sy’n ddarostyngedig i fesurau rheoleiddio traffig yn unol ag erthygl 47.

11.41 Mae **Atodlen 14 (Coed sy’n ddarostyngedig i orchmynion diogelu coed)** yn nodi’r coed sy’n ddarostyngedig i orchmynion diogelu coed yn unol ag erthygl 49.

11.42 Mae **Atodlen 15 (Darpariaethau gwarchod)** yn nodi’r darpariaethau ar gyfer gwarchod ymgymerwyr statudol y mae’r datblygiad awdurdodedig yn effeithio arnynt.

11.43 Mae **Atodlen 16 (Deddfwriaeth Gyffredinol Gyhoeddus)** yn gwneud darpariaethau ar gyfer cymhwyso, addasu ac eithrio darpariaethau statudol y cyfeirir atynt yn erthygl 54.

11.44 Mae **Atodlen 17 (Diwygio deddfwriaeth leol)** yn rhestru'r is-ddeddfau a'r deddfwriaethau lleol y mae'r National Grid yn ceisio eu heithrio yng nghyswllt y datblygiad arfaethedig yn unol ag erthygl 55.

**DIWEDD**